

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Llawlyfr Deddfwriaeth ar Is-ddeddfwriaeth

Medi 2020

llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020
WG39334 ISBN Digidol: 978-1-80082-132-3

## Tabl Cynnwys

PENNOD 1 – RHAGYMADRODD ....................6
Beth yw is-ddeddfwriaeth? ....................6
Cynulleidfa a diben y canllawiau hyn ....................7
Cyngor i'r Gweinidogion ar is-ddeddfwriaeth ....................7
Pennu blaenoriaeth deddfwriaeth busnes fel arfer ....................8
Diweddaru'r Llawlyfr Deddfwriaeth ....................8
Ymholiadau ....................8
PENNOD 2 – PWY SY'N GWNEUD BETH YN Y BROSES DDEDDFU ....................9
GWEINIDOGION CYMRU ....................9
Y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion ....................9
Y Cwnsler Cyffredinol ....................10
SWYDDOGION LLYWODRAETH CYMRU ....................11
Rôl y swyddogion polisi ....................11
Y Gwasanaethau Cyfreithiol ....................12
Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ....................12
Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol ....................12
Y Gwasanaeth Cyfieithu ....................13
Swyddfeydd Preifat y Gweinidogion ....................13
Y cynghorwyr arbennig ....................14
Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ....................14
Is-adran y Cyfansoddiad a Chyfiawnder ....................15
Trysorlys Cymru – Economegwyr ....................16
Trysorlys Cymru – Cyllidebu Strategol ....................16
Tîm Cyllid y Grŵp ....................16
Arweinwyr Deddfwriaeth y Grŵp ....................16
Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ....................17
Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd ....................17
Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu ....................17
Y TU ALLAN I LYWODRAETH CYMRU ....................18
Gweinyddiaethau Eraill ....................18
Y Senedd ....................18
Rhanddeiliaid ....................20
PENNOD 3 – DEALL IS-DDEDDFWRIAETH ....................21

Yr angen am is-ddeddfwriaeth a sut mae'n cael ei defnyddio'n aml ........... 21
Ystyriaethau cyffredinol ........ 21
MATHAU O IS-DDEDDFWRIAETH ........ 22
GWEITHDREFNAU AR GYFER GWNEUD OFFERYNNAU STATUDOL AC IS-DDEDDFWRIAETH ARALL ........ 25
Y Weithdrefn Negyddol (yn amodol ar ddirymu) ........ 26
Y Weithdrefn Gadarnhaol (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) ......... 30
Gweithdrefnau eraill ........ 30
Gosod yn unig ........ 30
Dim Gweithdrefn ........ 31
Y weithdrefn drafft negyddol ........ 31
Uwch-weithdrefn negyddol neu gadarnhaol ........ 32
Y weithdrefn "gadarnhaol dros dro" neu'r weithdrefn "gwneud cadarnhaol" ........ 32
Gweithdrefn Arbennig y Senedd ........ 33
PENNOD 4 – CYFLAWNI IS-DDEDDFWRIAETH ........ 34
Cyfnodau allweddol wrth wneud is-ddeddfwriaeth ........ 34
DATBLYGU POLISI ........ 34
Gwneud Penderfyniadau Da ........ 35
Cyfraith hygyrch ........ 35
Cyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol ........ 36
Ymgynghori a chyfranogi ........ 39
Ar ôl ymgynghori ........ 40
DRAFFTIO IS-DDEDDFWRIAETH ........ 40
Offerynnau statudol (OS) ........ 40
Is-ddeddfwriaeth arall ........ 41
DRAFFTIO DOGFENNAU ATEGOL ........ 42
Memorandwm Esboniadol ........ 42
Asesiad Effaith Rheoleiddiol ........ 42
Asesiadau effaith eraill ........ 44
Fersiynau dwyieithog o ddogfennau ategol ........ 44
GWNEUD YR IS-DDEDDFWRIAETH DERFYNOL NEU GYTUNO ARNI . 44
Offerynnau statudol ........ 44
Is-ddeddfwriaeth arall ........ 46
GWAITH CRAFFU'R SENEDD ........ 46
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ........ 46
Pwyllgorau eraill ........ 47

Diddordeb cyffredinol gan Bwyllgorau ........................................................ 48
Gwaith craffu'r Cyfarfod Llawn ........................................................ 48
Y weithdrefn gadarnhaol ........................................................ 48
Y weithdrefn negyddol ........................................................ 49
ARGRAFFU A CHYHOEDDI ........................................................ 50
Offerynnau statudol ........................................................ 50
Is-ddeddfwriaeth arall ........................................................ 51
PENNOD 5 – CWESTIYNAU I'W HYSTYRIED WRTH GYNLLUNIO IS-DDEDDFWRIAETH ........................................................ 52
Beth yw teitl gweithio'r is-ddeddfwriaeth? ........................................................ 52
Beth yw effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth? ........................................................ 52
Beth yw'r pwerau galluogi a'r weithdrefn a argymhellir? ........................................................ 53
Beth yw'r dyddiad arfaethedig ar gyfer dod i rym? ........................................................ 53
Oes agweddau penodol ar y ddeddfwriaeth a allai effeithio ar ei hamseriad? ........................................................ 54
Oes yna fwriad i ymgynghori? ........................................................ 54
Pa mor gymhleth yw'r polisi a'r is-ddeddfwriaeth? ........................................................ 55
Ydy'r is-ddeddfwriaeth yn rhan o becyn ehangach? ........................................................ 55
PENNOD 6 – MATHAU ARBENNIG O IS-DDEDDFWRIAETH A MATERION A ALLAI GODI ........................................................ 57
MATHAU ARBENNIG ........................................................ 57
Is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru yn unig ........................................................ 57
Is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ar y cyd â Llywodraeth y DU a/neu weinyddiaethau datganoledig eraill ........................................................ 57
Cyd-ddeddfwriaeth ........................................................ 57
Deddfwriaeth gyfansawdd ........................................................ 57
Cytundeb y Gweinidogion ar gyfer cyd-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth gyfansawdd ........................................................ 59
Datblygu cyd-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth gyfansawdd ........................................................ 59
Gwaith craffu'r Senedd ar gyd-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth gyfansawdd ........................................................ 60
Cynllunio ac amserlennu cyd-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth gyfansawdd ........................................................ 61
Is-ddeddfwriaeth sy'n gyfrifoldeb i gyrff eraill ac sy'n dod o dan weithdrefn yn y Senedd neu y mae'n ofynnol iddi gael ei gosod gerbron y Senedd ........ 62
Offerynnau a wneir gan swyddogion Llywodraeth Cymru o dan egwyddor Carltona ........................................................ 62
Offerynnau statudol lleol ........................................................ 63

MATERION A ALLAI GODI .......... 63
Materion technegol mewn is-ddeddfwriaeth .......... 63
Diddymu'r Senedd .......... 64
Dewis gweithdrefn .......... 65
Cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n dod o dan weithdrefnau gwahanol .......... 66
Ffioedd am wasanaethau – cydsyniad Trysorlys EM .......... 67
Cyfarwyddeb Safonau Technegol yr UE a Chytundeb Rhwystrau Technegol i Fasnach Sefydliad Masnach y Byd .......... 67
Cyfarwyddeb Gwasanaethau'r UE .......... 68
Gweithredu deddfwriaeth yr UE – Nodiadau trosi .......... 68
ATODIAD 1 – RHESTR BYRFODDAU .......... 69
ATODIAD 2 – OFFERYNNAU STATUDOL SY'N DIWYGIO DEDDFWRIAETH SYLFAENOL – CANLLAWIAU I GYFREITHWYR A SWYDDOGION POLISI .......... 70

# PENNOD 1 – RHAGYMADRODD

**Mae'r bennod hon yn nodi beth yw is-ddeddfwriaeth, cynulleidfa a diben arfaethedig y canllawiau hyn, sut y cânt eu diweddaru, a beth i'w wneud os bydd gennych unrhyw ymholiadau am y canllawiau.**

**Mae hefyd yn esbonio ystyriaethau allweddol o ran gweithio ar is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:**
- **Cyflwyno cyngor i'r Gweinidogion, a**
- **Phennu blaenoriaeth deddfwriaeth busnes fel arfer.**

**Beth yw is-ddeddfwriaeth?**

1.1 Cyfraith a wneir gan Weinidog, neu ambell waith gan gorff cyhoeddus, o dan bwerau a roddwyd iddynt gan ddeddfwriaeth sylfaenol (e.e. Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig, Mesurau'r Cynulliad, a Deddfau Senedd Cymru, gan gynnwys Deddfau a gafodd y Cydsyniad Brenhinol cyn i'r Senedd gael ei hailenwi) yw is-ddeddfwriaeth. Cyfeirir ati weithiau fel "deddfwriaeth eilaidd" neu "ddeddfwriaeth ddirprwyedig".

1.2 Pan ddefnyddir y term "is-ddeddfwriaeth" mewn Deddf gan Senedd Cymru neu mewn is-offeryn Cymreig, mae'n golygu

> *"… rheoliadau, gorchmynion, rheolau, Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, cynlluniau, gwarantau, is-ddeddfau ac offerynnau eraill a wneir o dan—*
> *(a) Deddf Cynulliad,*
> *(b) Mesur Cynulliad,*
> *(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, neu*
> *(d) deddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir."*

Gweler adran 5 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ac Atodlen 1 iddi.

1.3 Mae gan Reolau Sefydlog y Senedd ddiffiniad tebyg o is-ddeddfwriaeth fel *"Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, gorchmynion, rheolau, rheoliadau, cynlluniau, gwarantau, is-ddeddfau ac offerynnau eraill a wnaed neu sydd i'w gwneud o dan unrhyw un o Ddeddfau Senedd y DU neu Ddeddf y Senedd, neu a wnaed neu sydd i'w gwneud o dan is-ddeddfwriaeth"*. Mewn man arall mae'r Rheolau Sefydlog hefyd yn egluro y gall is-ddeddfwriaeth hefyd fod "*ar ffurf adroddiad, canllawiau, cod ymarfer neu ddogfen arall"*.

1.4 Gan fod gwahanol ddiffiniadau o is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys at wahanol ddibenion, mae'n bwysig bod y swyddogion yn ymwybodol o'r gwahanol ddiffiniadau hyn a pha ofynion sy'n gymwys, wrth weithio ar eitem o is-ddeddfwriaeth.

1.5 Nodir pŵer y Gweinidog i wneud is-ddeddfwriaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol a'r diben yw gwneud newidiadau manwl yn y gyfraith. Yn aml, fydd deddfwriaeth sylfaenol ddim yn cynnwys yr holl newidiadau manwl yn y gyfraith y mae eu hangen er mwyn rhoi polisi ar waith ac felly ymdrinnir â hyn mewn is-ddeddfwriaeth. Er mwyn gwneud is-ddeddfwriaeth, mae'n rhaid cael pŵer statudol penodol bob amser, o'r enw "pŵer galluogi" ac mae hwn i'w gael yn y "rhiant-Ddeddf" (e.e. y Mesur Cynulliad neu'r Ddeddf gan Senedd Cymru neu'r Ddeddf gan Senedd y DU sy'n dirprwyo'r pŵer i wneud yr is-ddeddfwriaeth).

1.6 Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar ddeall is-ddeddfwriaeth, ac offerynnau statudol yn benodol, ar gael ym Mhennod 3.

**Cynulleidfa a diben y canllawiau hyn**

1.7 Prif gynulleidfa'r canllawiau hyn yw swyddogion polisi Llywodraeth Cymru sydd â'r dasg o baratoi a chyflwyno is-ddeddfwriaeth i'w gwneud gan Weinidogion Cymru. Bydd y canllawiau o ddiddordeb hefyd i swyddogion eraill i Lywodraeth Cymru sy'n rhan o'r broses o baratoi is-ddeddfwriaeth, fel cyfreithwyr a'r rhai sy'n ymwneud â rheoli a chydlynu gweithgareddau deddfwriaeth. (Dylai'r canllawiau fod o gymorth hefyd i'r rhai sy'n datblygu deddfwriaeth sylfaenol, y gall fod angen iddynt ddeall y gwahanol fathau o is-ddeddfwriaeth, a'r gweithdrefnau ar eu cyfer, yn ogystal â'r amserlenni ar gyfer gweithredu Deddf drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth.)

1.8 Mae'r canllawiau hyn wedi'u drafftio i helpu arweinwyr polisi a swyddogion eraill sydd â diddordeb ynghylch materion ymarferol datblygu is-ddeddfwriaeth. Dylech eu darllen ar y cyd â'r Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad (sydd i'w gyhoeddi'n fuan mewn fersiwn wedi'i diweddaru fel y Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd). Lle bo'n briodol, mae'r canllawiau hyn hefyd yn cyfeirio at ganllawiau perthnasol eraill gan Lywodraeth Cymru.[1]

**Cyngor i'r Gweinidogion ar is-ddeddfwriaeth**

1.9 Pwerau Gweinidogion Cymru yw'r pwerau a ddefnyddir i wneud is-ddeddfwriaeth.[2] Gan hynny, rhaid gofyn i'r Gweinidogion wneud pob penderfyniad allweddol drwy gyflwyno cyngor ysgrifenedig iddyn nhw.

1.10 Mae'r canllawiau hyn yn amlygu'r unigolion neu'r rolau allweddol a ddylai fod yn rhan o'r gwaith o ddrafftio cyflwyniad a chytuno arno. Maent yn rhoi enghreifftiau hefyd o'r penderfyniadau y mae angen sicrhau cytundeb y Gweinidogion ar eu cyfer.

[1] Dylai'r swyddogion hynny i Lywodraeth Cymru sy'n gweithio ar is-ddeddfwriaeth ynglŷn ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE ddarllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r canllawiau ar wahân sydd ar gael gan Dîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd ynghylch y gwaith hwnnw.
[2] Neu yn achlysurol pwerau'r Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol, yn ôl y digwydd.

1.11 Fel rheol, dylech roi o leiaf wythnos i'r Gweinidogion i ystyried cyngor, ond dylech ystyried y manylion rydych chi'n gofyn iddyn nhw eu cymeradwyo, pa mor hir yw'r cyngor, etc, ac a ddylai hyn fod yn gyfnod hirach. Mae'n ddoeth cydlynu â'r Swyddfa Breifat berthnasol ynghylch amserau clirio.

1.12 Mae rhagor o gyngor a chanllawiau, ynghyd â thempledi ar gyfer cyflwyniadau, ar gael ar fewnrwyd Llywodraeth Cymru.

**Pennu blaenoriaeth deddfwriaeth busnes fel arfer**

1.13 Mae system o bennu blaenoriaethau'n cael ei defnyddio i reoli pob is-ddeddfwriaeth yng nghyd-destun ehangach y blaenoriaethau a'r adnoddau ar gyfer deddfwriaeth a pholisi. Mae angen i'r swyddogion polisi drafod blaenoriaeth unrhyw eitemau is-ddeddfwriaeth gydag Arweinydd Deddfwriaeth eu Grŵp a'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn y cyfnod cynnar er mwyn i'w heitemau is-ddeddfwriaeth gael eu cynnwys yn y system gynllunio. Gallwch ofyn am ragor o gyngor gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

**Diweddaru'r Llawlyfr Deddfwriaeth**

1.14 Bydd y Llawlyfr Deddfwriaeth yn cael ei adolygu bob hyn a hyn a, lle bo angen hynny, caiff ei ddiweddaru neu ei gywiro i adlewyrchu newidiadau yn y weithdrefn a'r arferion wrth i'r rheiny ddigwydd. Er y bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn ceisio tynnu sylw'r staff at newidiadau perthnasol, y fersiwn electronig o'r Llawlyfr Deddfwriaeth yw'r un fwyaf diweddar.

**Ymholiadau**

1.15 Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch unrhyw agwedd ar y canllawiau hyn gael eu cyfeirio at Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn y lle cyntaf:

Blwch post: LegislativeProgrammeGovernanceUnit@gov.wales

Rhif ffôn: **03000 257016**.

# PENNOD 2 – PWY SY'N GWNEUD BETH YN Y BROSES DDEDDFU

**Mae'r bennod hon yn rhoi gwybodaeth ynghylch pwy sy'n rhan o'r broses o baratoi a gwneud is-ddeddfwriaeth a'r hyn a wnânt. Mae hyn wedi'i rannu yn ôl y rhai sydd yn y llywodraeth a'r rhai sydd y tu allan iddi, yn y Senedd yn bennaf.**

**Mae'n nodi'r prif gyfranwyr ac yn esbonio'u rôl benodol yn y broses, yn ogystal â chyfeirio at y rhai a all roi cyngor er mwyn sicrhau bod y broses yn rhedeg yn llyfn.**

## GWEINIDOGION CYMRU

### Y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion

2.1 Mae'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth y caiff y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion weithredu odanynt wedi'u dirprwyo i'r endid cyfreithiol "Gweinidogion Cymru".[3] Mewn termau cyfreithiol, mae hyn yn golygu:

a. y caiff unrhyw un neu ragor o Weinidogion Cymru arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth; a

b. bod Gweinidogion Cymru yn gyfrifol ar y cyd am yr is-ddeddfwriaeth y bydd unrhyw un neu ragor ohonynt yn ei gwneud (h.y. mae her yn erbyn y ddeddfwriaeth honno'n cael ei chyflwyno yn erbyn Gweinidogion Cymru yn gyffredinol).

2.2 Yn wleidyddol ac yn ymarferol, y Gweinidogion sy'n gyfrifol am wneud is-ddeddfwriaeth o fewn eu portffolio. Byddant yn penderfynu ar y polisi ac yn cytuno i ddeddfu. Byddant hefyd yn cytuno ar ddull a hyd unrhyw ymgynghori, yn cymeradwyo fersiynau terfynol yr holl ddogfennau ac yn gwneud offerynnau statudol (drwy eu llofnodi), sef y pwynt pan ddaw'r offeryn statudol yn ddeddf gwlad (er ei bod yn bosibl na fydd yn dod i rym ar yr adeg hon).

2.3 Weithiau, y Dirprwy Weinidog yn hytrach na'r Gweinidog yw'r arweinydd ar gyfer eitem o is-ddeddfwriaeth. At ei gilydd, os oes cyngor yn cael ei roi i Ddirprwy Weinidog, rhaid i Weinidog y portffolio gael copi ohono. Mae'n **rhaid** hefyd i benderfyniadau a gaiff effaith ariannol gael eu gwneud gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y portffolio, gan mai'r Gweinidog sydd â'r cyfrifoldeb cyllidebol dros

[3] Mae'r term Gweinidog(ion) yn cael ei ddefnyddio drwy'r llawlyfr i gyd i gyfeirio at y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion. Pan geir cyfeiriad penodol at y naill neu'r llall, mae hynny'n cael ei wneud yn amlwg yn y canllawiau.

bortffolio polisi'r Dirprwy Weinidog. Er hynny, y Dirprwy Weinidog sy'n llofnodi, ac felly'n gwneud, yr offeryn statudol.

2.4 Mae yna achlysuron pan fo mwy nag un Gweinidog portffolio â diddordeb mewn eitem is-ddeddfwriaeth, yn arbennig:

c. Pan fo'r cyfrifoldeb cyllidebol dros un neu fwy o agweddau ar yr is-ddeddfwriaeth yn perthyn i Weinidog gwahanol. Mewn achosion o'r fath dylech ofyn am gytundeb y Gweinidog sydd â'r cyfrifoldeb ariannol i'r goblygiadau cost hynny sy'n syrthio o fewn maes neu feysydd y Gweinidog hwnnw;

d. Pan fo agweddau polisi'r is-ddeddfwriaeth yn drawsbynciol eu natur. Y Gweinidog fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol, ond bydd am sicrhau, lle mae'r is-ddeddfwriaeth yn effeithio ar bortffolio Gweinidogion eraill, eu bod hwythau'n cael eu hysbysu a'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu.

**Y Cwnsler Cyffredinol**

2.5 Y Cwnsler Cyffredinol yw Swyddog Cyfraith y Llywodraeth; ef sy'n gyfrifol am roi cyngor cyfreithiol i'r Prif Weinidog a gweddill y Llywodraeth. Cyngor cyfreithiol y Cwnsler Cyffredinol yw cyngor cyfreithiol terfynol ac awdurdodol y Llywodraeth. Gellir gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol roi cyngor ar faterion cyfreithiol penodol sy'n ymwneud ag eitem is-ddeddfwriaeth, er enghraifft pan gynigir datblygu eitem is-ddeddfwriaeth ond bod yna gwestiwn ynglŷn â phwerau'r Gweinidog i'w gwneud ac a yw'n dod o fewn cwmpas y "pŵer galluogi" ai peidio.

2.6 O dan amgylchiadau penodol, mae'n rhaid gofyn am gydsyniad y Cwnsler Cyffredinol i faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r is-ddeddfwriaeth. Un enghraifft yw'r confensiwn bod rhaid sicrhau cydsyniad y Cwnsler Cyffredinol pan gynigir bod is-ddeddfwriaeth yn cael effaith ôl-weithredol pan ddaw i rym. Gall y Gwasanaethau Cyfreithiol roi canllawiau ar y confensiwn, a chyngor ynghylch pryd y mae angen cydsyniad y Cwnsler Cyffredinol.

2.7 O dan adran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 mae'r Cwnsler Cyffredinol o dan ddyletswydd i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad, ac mae hyn yn cynnwys is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn gofyn iddo ganolbwyntio ar y gyfraith fel cyfanwaith, boed yn gyfraith ar bwnc penodol ynteu'r llyfr statudau yn ei grynswth. Mae'r rhwymedigaeth sydd ar y Cwnsler Cyffredinol yn berthnasol hefyd pan fo Gweinidogion Cymru'n ystyried a ddylid cynnig deddfwriaeth newydd, ac mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylech ystyried sut y gallai'r ymagwedd at ddeddfu effeithio ar hygyrchedd y gyfraith. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Nodiadau Esboniadol Deddf 2019.

## SWYDDOGION LLYWODRAETH CYMRU

### Rôl y swyddogion polisi

2.8 Y swyddogion polisi fydd yn gyfrifol am ddatblygu'r polisi a'i roi ar waith, ac am sicrhau bod y bwriad polisi yn cael ei gyflawni'n llawn gan yr is-ddeddfwriaeth.

2.9 Bydd angen i'r swyddogion polisi weithio gyda phob rhanddeiliad, mewnol ac allanol, i ddatblygu'r polisi. Mae'n hanfodol ymgysylltu'n gynnar â phob tîm perthnasol yn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod is-ddeddfwriaeth yn cael ei pharatoi a'i chyflwyno'n brydlon. Gall ymgysylltu'n briodol â'r rhanddeiliaid allanol cywir ar yr adeg gywir fod yn hanfodol er mwyn i'r is-ddeddfwriaeth gael ei derbyn a'i gweithredu fel y bwriadwyd.

2.10 Y swyddogion polisi sy'n gyfrifol am fodloni'r terfynau amser, ac am sicrhau bod yr holl waith yn cael ei glirio gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, y Dirprwy Gyfarwyddwyr perthnasol, y Timau Gweithrediadau, a phobl eraill lle bo angen, gan gynnwys yr Is-adran Cyllidebu Strategol (i gael rhagor o fanylion, gweler Hysbysiad Cyllid 01/2019 sydd ar gael ar fewnrwyd Llywodraeth Cymru).

2.11 Mae cyfrifoldebau allweddol swyddogion polisi yn cynnwys:

- Datblygu manylion llawn y polisi;
- Asesu canlyniadau arfaethedig a/neu ddisgwyliedig y polisi;
- Ceisio cyngor cyfreithiol ar gynigion i ddatblygu is-ddeddfwriaeth (ar ôl sicrhau cydsyniad y Dirprwy Gyfarwyddwr perthnasol yn y maes polisi);
- Datblygu cyfarwyddiadau manwl i'r cyfreithwyr;
- Gofyn i'r Gweinidog gytuno i ddeddfu ar y bwriad polisi;
- Ymgynghori â phob rhanddeiliad perthnasol, dadansoddi'r ymatebion ac, os oes angen, gofyn i'r Gweinidog ddiwygio'r polisi;
- Paratoi'r Memorandwm Esboniadol ac, os oes angen un, asesiad effaith rheoleiddiol (RIA);
- Sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r fframwaith statudol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu o'i fewn. Mae hyn yn cynnwys cyflawni'r dyletswyddau i ddatblygu'r polisi mewn ffyrdd penodol o'r dechrau'n deg, er enghraifft, o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Gymraeg, CCUHP etc. (Sylwch fod gofynion statudol eraill y gall fod angen eu hystyried. Gall yr Asesiad Effaith Integredig (gweler Pennod 4 isod) eich helpu i nodi llawer o'r rhain, a gall swyddogion polisi ofyn cyngor eu cyfreithwyr hefyd).

**Y Gwasanaethau Cyfreithiol**

2.12 Yn y Gwasanaethau Cyfreithiol y mae swyddfeydd y cyfreithwyr a byddant yn rhoi cyngor ar y gyfraith bresennol yn y maes polisi, hyd a lled pwerau Gweinidogion Cymru a goblygiadau cyfreithiol yr opsiynau polisi a allai fod o dan ystyriaeth. Nhw hefyd sy’n gyfrifol am ddrafftio’r rhan fwyaf o offerynnau statudol, ar sail y cyfarwyddiadau a ddarperir gan y swyddogion polisi. Dylai’r cyfreithwyr gael eu cynnwys yn ystod y cyfnodau cynharaf pan fydd y swyddogion polisi wrthi’n datblygu’r polisi er mwyn helpu i ddod o hyd i’r ffordd gyfreithiol orau o gyflawni’r amcan polisi ac yn aml maen nhw’n gallu arbed llawer o waith gwastraff. Bydd hyn hefyd yn eu helpu i ddeall yr amcanion polisi fel y gallant sicrhau, wrth ddrafftio’r offeryn statudol, ei fod yn bodloni’r gofynion polisi.

2.13 Mae’n rhaid hefyd i’r cyfreithwyr glirio pob cyngor cyn iddo gael ei gyflwyno i’r Gweinidog.

**Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol**

2.14 Mae Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn dîm o gyfreithwyr arbenigol sy’n gyfrifol am ddrafftio Biliau Llywodraeth Cymru a pheth is-ddeddfwriaeth. Os oes bwriad i ddefnyddio offeryn statudol i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol (Deddf neu Fesur), rhaid i’r diwygiadau arfaethedig gael eu clirio gan Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol cyn i’r offeryn statudol gael ei gymeradwyo gan y Gweinidogion.

2.15 Gall Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol gael ei chyfarwyddo i ddrafftio offerynnau statudol nad ydynt yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol os yw’r prosiect yn cynnwys heriau drafftio cymhleth neu rai a allai fod yn ddadleuol. Mae argaeledd gwasanaethau’r Swyddfa i ddrafftio offerynnau statudol yn dibynnu ar yr adnoddau staff sydd ar gael a’r flaenoriaeth y mae angen i’r Swyddfa ei rhoi i Filiau yn y rhaglen ddeddfwriaethol ac offerynnau statudol sy’n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Os hoffech i Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ddrafftio offeryn statudol, cysylltwch â thîm is-ddeddfwriaeth y Swyddfa yn gyntaf. (Yn yr achosion hyn, bydd yn dal yn angenrheidiol ichi drafod a chytuno ar y trefniadau ar gyfer cyfieithu a chyfwerthedd gyda’r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol a’r Gwasanaeth Cyfreithiol.)

**Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol**

2.16 Mae’r Swyddfa hon yn rhan o Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ac mae’n gyfrifol am gyflawni rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. O ran is-ddeddfwriaeth, mae hyn yn cynnwys:

a. trefnu i’r offeryn statudol terfynol gael ei lofnodi (gan y Gweinidog);

b. cofrestru a chyhoeddi offerynnau statudol Cymreig gyda'r Archifau Gwladol (i gael rhagor o fanylion, gweler Pennod 4 isod, paragraff 4.96 ymlaen); ac

c. darparu copïau terfynol o offerynnau statudol (a dogfennau ategol) i Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant i'w gosod gerbron y Senedd.

2.17 Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol sy'n gyfrifol hefyd am wella'r modd y caiff cyfraith Cymru ei chyhoeddi a'i hesbonio. Mae hyn yn cynnwys gwella gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales a bydd yn cynnwys diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol i ymgorffori diwygiadau a wneir gan ddeddfwriaeth ddilynol a chyhoeddi deddfwriaeth drwy gyfeirio at ei phwnc.

**Y Gwasanaeth Cyfieithu**

2.18 Mae gwaith y Gwasanaeth Cyfieithu'n ymrannu'n ddau gategori: mae'r Uned Cyfieithu Cyffredinol yn ymdrin â'r dogfennau ategol nad ydynt yn ddeddfwriaeth, fel Memoranda Esboniadol ac adroddiadau technegol. Mae hefyd yn cyfieithu testun sy'n 'ddeddfwriaethol ei natur', fel Cyfarwyddydau a Chanllawiau sydd wedi'u drafftio gan swyddogion polisi. Mae'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol yn arbenigo mewn cyfieithu testunau deddfwriaeth, fel offerynnau statudol a Biliau. I gael rhagor o fanylion ynghylch pa Uned sy'n ymdrin â pha fath o destun, gweler yr wybodaeth ar y fewnrwyd.

2.19 Cyfyngedig yw adnoddau'r ddwy uned. Gan hynny, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gweithio ar is-ddeddfwriaeth yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyfieithu ar y dechrau i drafod a chytuno ar yr amser y bydd ei angen ar gyfer y gwaith cyfieithu a'r ffordd orau i gynllunio ar gyfer y prosiect. Pan fo'r offeryn statudol neu'r is-ddeddfwriaeth arall yn cyflwyno terminoleg newydd, bydd trafod yn gynnar gyda'r Gwasanaeth Cyfieithu yn caniatáu i waith terminoleg paratoadol gael ei wneud er mwyn sicrhau bod y geiriad mwyaf priodol yn cael ei fabwysiadu o'r dechrau'n deg.

**Swyddfeydd Preifat y Gweinidogion**

2.20 Mae gan bob Gweinidog gefnogaeth ysgrifenyddiaeth, sy'n gweithredu fel y prif gyswllt rhwng y Gweinidog a'r sefydliad. Yr ysgrifenyddiaeth sy'n ymdrin â'r holl ohebiaeth i'r Gweinidog, yn trefnu cyfarfodydd â'r Gweinidog ac iddyn nhw ac yn trefnu eu hymddangosiadau gerbron pwyllgorau'r Senedd. Mae'r Swyddfeydd Preifat yn brysur iawn ac yn delio â nifer arwyddocaol o ymholiadau a galwadau o bob rhan o'r sefydliad. Mae'n bwysig bod timau polisi yn gwybod pa bryd mae'r Gweinidog (neu'r Gweinidogion mewn materion sy'n croesi portffolios) ar gael i ystyried papurau. Yn aml fe fydd sawl mater y gofynnir i'r Swyddfa Breifat dynnu sylw'r Gweinidog atyn nhw i'w hystyried 'ar

fyrder' felly bydd siarad â'r Swyddfa Breifat ymlaen llaw yn helpu wrth gynllunio amserlenni a deall galwadau cyferbyniol.

**Y cynghorwyr arbennig**

2.21 Mae cynghorwyr arbennig yn ychwanegu dimensiwn gwleidyddol i'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i'r Gweinidogion ac yn atgyfnerthu didueddwch gwleidyddol y Gwasanaeth Sifil parhaol yr un pryd, drwy amlygu ffynhonnell ar gyfer cyngor a chymorth gwleidyddol.

2.22 Maen nhw'n cael eu penodi gan y Prif Weinidog i helpu'r Gweinidogion ar faterion lle mae gwaith y llywodraeth a gwaith y blaid sy'n llywodraethu yn gorgyffwrdd a lle byddai'n amhriodol i weision sifil parhaol gymryd rhan. Maent yn adnodd ychwanegol i'r Gweinidog, gan ddarparu cymorth o safbwynt sy'n fwy ymroddedig yn wleidyddol ac yn fwy ymwybodol yn wleidyddol nag a fyddai ar gael i Weinidog gan y Gwasanaeth Sifil parhaol.

2.23 Mae'n ddefnyddiol i'r swyddogion polisi ymgysylltu â'r cynghorwyr arbennig wrth baratoi cyngor i'r Gweinidogion ynghylch is-ddeddfwriaeth a allai fod o ddiddordeb cyhoeddus neu wleidyddol arwyddocaol.

**Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant**

2.24 Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant sy'n darparu cyngor ac arweiniad ar weithdrefnau is-ddeddfwriaeth y Senedd. Maent yn gweithredu fel y prif gyswllt â'r Senedd ar faterion sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth, ac yn cydlynu gohebiaeth ar ddeddfwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a phwyllgorau'r Senedd.

2.25 Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant sy'n gyfrifol am osod is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd, trefnu slotiau yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer dadleuon ar is-ddeddfwriaeth sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, a chyflwyno cynigion a chomisiynu briffiadau gan swyddogion polisi ar gyfer dadleuon y weithdrefn gadarnhaol a dadleuon dirymu (i gael rhagor o fanylion am weithdrefnau'r Senedd ar is-ddeddfwriaeth, gweler paragraff 3.15 ymlaen).

2.26 Dylai'r swyddogion roi cyfle i Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant roi sylwadau ar yr holl gyngor i'r Gweinidogion ynghylch is-ddeddfwriaeth, a'r dogfennau ategol allweddol megis Memoranda Esboniadol, cyn eu cyflwyno i'r Gweinidog. Mae'n bwysig bod yr Uned yn cymryd rhan yn gynnar yn y broses o ddrafftio cyngor i'r Gweinidogion fel bod unrhyw bwyntiau sy'n ymwneud â phrosesau, gweithdrefnau a dulliau trafod y Senedd yn cael eu hadlewyrchu'n gywir, ac er mwyn sicrhau cysondeb ag ymagwedd Llywodraeth Cymru.

**Is-adran y Cyfansoddiad a Chyfiawnder**

2.27 Mae Is-adran y Cyfansoddiad a Chyfiawnder yn cynnwys dau dîm sy'n arbennig o berthnasol i'r rhai sy'n gweithio ar is-ddeddfwriaeth: y Tîm Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth Seneddol (DU) (CAPL) a'r Tîm Polisi Cyfiawnder.

2.28 Mae'r Tîm Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth Seneddol yn rhoi cyngor a chymorth ynghylch materion cyfansoddiadol, sy'n ymwneud â setliad datganoli Cymru a datblygiadau cyfansoddiadol ehangach y DU. Maent hefyd yn rhoi cyngor ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a deddfwriaeth arall Senedd y DU sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud gan un o Weinidogion Llywodraeth y DU (un o Weinidogion y Goron) <u>yn unig</u> neu drwy orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

2.29 Gall y Tîm Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth Seneddol ddweud wrth swyddogion polisi pryd y bydd angen cydsyniad y Senedd i is-ddeddfwriaeth o'r fath ac ar y camau priodol i'w cymryd. Byddant hefyd yn helpu i ddatblygu Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a byddant yn paratoi Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol os bydd angen un.

2.30 Mae'r Tîm Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth Seneddol yn rhoi canllawiau ar rai mathau eraill o is-ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU, fel Gorchmynion a wneir o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Gorchmynion Diwygio Rheoleiddio, Gorchmynion Diwygio Deddfwriaeth, Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau, a Gorchmynion o dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus.

2.31 Mae rhagor o ganllawiau am is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan Lywodraeth y DU yn unig ac sy'n effeithio ar Gymru ar gael gan y Tîm Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth Seneddol.

2.32 Mae'r Tîm Polisi Cyfiawnder yn gweithio gyda thimau eraill yn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldebau dros gyfiawnder a rhanddeiliaid cyfiawnder allanol, gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, ar ddatblygu a darparu cyfiawnder yng Nghymru. Wrth weithio ar is-ddeddfwriaeth, bydd bob amser yn bwysig ystyried a allai hyn effeithio ar y system gyfiawnder. Ceir canllawiau ar asesu'r effeithiau ar gyfiawnder ar y fewnrwyd ac yn yr Asesiad Effaith Integredig. Ar ôl i'r swyddogion polisi adolygu'r canllawiau hyn a thrafod materion gyda'u tîm yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, dylent naill ai llenwi ffurflen Nodi Effeithiau ar y System Gyfiawnder a'i chyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder neu gysylltu â'r Tîm Polisi Cyfiawnder i gael rhagor o gyngor.

**Trysorlys Cymru – Economegwyr**

2.33 Tîm y Prif Economegydd yn Nhrysorlys Cymru sy'n cynghori ar yr angen am asesiad effaith rheoleiddiol (RIA – gweler Pennod 4 isod, paragraff 4.54 ymlaen i gael rhagor o wybodaeth) ac mae ganddynt rôl bwysig o ran helpu swyddogion polisi i lunio tystiolaeth i ategu effaith, costau a manteision deddfwriaeth. Mae'n hanfodol bod y swyddogion polisi yn siarad â nhw yn ystod cyfnod cychwynnol datblygu polisi gan y byddant yn cynghori ar sut i gael yr wybodaeth angenrheidiol.

2.34 Y Prif Economegydd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros glirio Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.

**Trysorlys Cymru – Cyllidebu Strategol**

2.35 Yr Is-adran Cyllidebu Strategol sy'n arwain proses gyllidebol y Llywodraeth i ddyrannu adnoddau yn unol â blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer pobl, cymunedau a busnesau Cymru. Mae'n canolbwyntio ar wella'r defnydd ar dystiolaeth a dadansoddiadau i ategu'r broses o wneud penderfyniadau strategol. Rhaid ymgysylltu â'r Is-adran Cyllidebu Strategol pan na all goblygiadau cost is-ddeddfwriaeth gael eu talu o fewn y cyllidebau presennol, ac efallai y bydd angen eu cynnwys wrth glirio'r cyngor i'r Gweinidogion sy'n gysylltiedig â'r is-ddeddfwriaeth hon.

**Tîm Cyllid y Grŵp**

2.36 Bydd Tîm Cyllid y Grŵp yn helpu'r swyddogion polisi i ganfod sut i gyllido'r polisi, a sut caiff arian ei ddyrannu o'r cyllidebau. Gallant gynghori'r swyddogion polisi hefyd ar yr angen i ymgysylltu â'r Is-adran Cyllidebu Strategol. Rhaid i Dîm Cyllid y Grŵp glirio'r holl gyngor i'r Gweinidogion sydd â goblygiadau ariannol sy'n fwy na £50,000 (heb gynnwys TAW), cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Gweinidog. Does dim angen cliriad gan Dîm Cyllid y Grŵp i gyngor sydd â goblygiadau ariannol o lai na £50,000 (heb gynnwys TAW) pan fo'r Dirprwy Gyfarwyddwr sy'n ei gymeradwyo yn fodlon bod modd fforddio'r goblygiadau ariannol yn llawn o fewn eu dirprwyadau cyllideb presennol. Fe all y bydd angen i'r swyddogion polisi sicrhau caniatâd Timau Gweithrediadau adrannau eraill a/neu Dîm Cyllid Llywodraeth Leol os yw rhychwant y polisi'n effeithio ar eu cyfrifoldebau a'u cyllidebau nhw.

**Arweinwyr Deddfwriaeth y Grŵp**

2.37 Mae Arweinwyr Ddeddfwriaeth yn gwneud gwaith cydgysylltu yn y grwpiau polisi. Dylai'r swyddogion polisi geisio cyngor gan Arweinydd Deddfwriaeth y grŵp ynghylch y cymorth y gall ei roi ar ddatblygu a chyflwyno is-ddeddfwriaeth.

### Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

2.38 Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn ffynhonnell bwysig iawn o wybodaeth wrth ystyried y sail dystiolaeth ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth. Gall y Gwasanaethau ddarparu arbenigedd mewn meysydd fel ystadegau, ymchwil gymdeithasol, technoleg ddaearyddol a gwasanaethau llyfrgell. Sylwch hefyd y gall dadansoddwyr (sy'n economegwyr, ymchwilwyr cymdeithasol ac ystadegwyr) ymsefydlu mewn grwpiau hefyd. Efallai y gall y Gwasanaethau gynnig cymorth wrth ddyfeisio cwestiynau ymgynghori er mwyn sicrhau atebion sy'n caniatáu dadansoddiad syml, dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad, neu gomisiynu ymarferion penodol i gasglu data. Gall y Gwasanaethau hefyd roi cyngor a chymorth o ran gwerthuso ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei rhoi ar waith.

### Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd

2.39 Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd sy'n arwain gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Prif nod y Tîm yw diogelu a hybu buddiannau Cymru yn ystod y broses o ymadael â'r UE gan gynnwys darparu canllawiau mewn perthynas â chanlyniadau ymadawiad y DU â'r UE ar gyfer deddfwriaeth. Gall y Gwasanaethau Cyfreithiol roi cyngor a chanllawiau pan fo'r swyddogion yn ymdrin â throsi un o Gyfarwyddebau'r UE yn ddeddfwriaeth ddomestig.[4]

### Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu

2.40 Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu sy'n arwain y gwaith i ddatblygu a darparu cysylltiadau allanol ar ran Llywodraeth Cymru. Rhywbeth sy'n arbennig o berthnasol yw gwaith y Gyfarwyddiaeth ar gyfathrebu ar y we ac yn digidol, newyddion, cysylltiadau â'r wasg a'r cyfryngau, a chynllunio, cydlynu, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith cyfathrebu. Er nad yw is-ddeddfwriaeth yn denu llawer o sylw'r cyhoedd neu'r cyfryngau mewn llawer o achosion, gall rhywfaint ohoni gael effaith sylweddol ar randdeiliaid, neu ddenu diddordeb y cyhoedd, a dylai'r swyddogion polisi ymgysylltu â'r Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata ar gyfer y Grŵp Polisi, a all roi cyngor, arweiniad a chymorth ar ddull cyfathrebu priodol. Mewn llawer o achosion, bydd angen ymgynghori hefyd fel rhan o'r broses o ddatblygu is-ddeddfwriaeth a dylai'r swyddogion polisi ymgysylltu â'r Tîm Dylunio fel rhan o baratoi'r ymgynghoriad (fel yr amlinellir yn y canllawiau ar ymgynghori sydd ar gael drwy fewnrwyd Llywodraeth Cymru).

---

[4] Ymadawodd y DU â'r UE ym mis Ionawr 2020. Adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn, mae'n dal yn ofynnol yn ystod y cyfnod pontio (sydd ar hyn o bryd i fod i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020) i gyfarwyddebau'r UE sy'n dod o fewn rhychwant y cytundeb ymadael gael eu trosi. Caiff y canllawiau hyn eu diweddaru yn y dyfodol yn ôl yr angen.

## Y TU ALLAN I LYWODRAETH CYMRU

### Gweinyddiaethau Eraill

2.41 Ceir achlysuron pan fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud offerynnau statudol ar y cyd â gweinyddiaethau eraill yn y DU. Gall fod adegau hefyd pan fydd Gweinidogion Cymru'n dewis arfer eu pwerau 'ar y cyd' â Gweinidogion o weinyddiaethau eraill yn y DU (gweler Pennod 6 isod am ragor o fanylion). Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU yn sefydlu ac yn cynnal cydberthnasau gwaith agos wrth fwrw ymlaen â deddfwriaeth mewn perthynas â Chymru, yng nghyd-destun y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, a'r Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganoli gan Lywodraeth y DU i'w gweision sifil.

2.42 Mae trafodaethau ar ddeddfwriaeth sydd yn yr arfaeth yn cael eu cynnal ar sail gyfrinachol a bydd terfynau amser tynn. Dylai'r swyddogion sy'n arwain yn hyn o beth geisio cytuno ar amserlenni a therfynau amser cyn gynted â phosibl ac egluro i gydweithwyr mor bwysig yw cadw at y rhain.

2.43 Mae angen i'r Tîm Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth Seneddol fod yn ymwybodol o gynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth lle mae'r pwerau'n perthyn i un o Weinidogion y Goron/Ysgrifennydd Gwladol (ac nid Gweinidogion Cymru) a phan gynigir (neu pan gytunir) y bydd Llywodraeth y DU yn deddfu ar ran Gweinidogion Cymru.

### Y Senedd

2.44 Mae rhai o weithdrefnau'r Senedd ar gyfer ystyried is-ddeddfwriaeth wedi'u nodi yn ei Rheolau Sefydlog.

*Pwyllgorau*

2.45 Rhaid i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd ystyried pob offeryn statudol a osodir gerbron y Senedd a chyflwyno adroddiad i nodi a ddylai'r Senedd roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r offeryn drafft ai peidio. Nodir y rhesymau dros yr ystyriaethau hyn yn Rheol Sefydlog 21. Mae'r Rheol Sefydlog hon hefyd yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Senedd (heblaw'r is-ddeddfwriaeth honno sy'n dod o dan Weithdrefn Arbennig y Senedd – gweler Pennod 3 isod, paragraff 3.47 ymlaen), neu unrhyw fater deddfwriaethol o natur gyffredinol sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

2.46 Yn ychwanegol, mae Rheol Sefydlog 27.8A yn caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ystyried offerynnau statudol sy'n ymwneud â threthi datganoledig.

2.47 Mae Rheol Sefydlog 27.8 yn galluogi pwyllgorau eraill i ystyried rhai offerynnau statudol sy'n dod o fewn eu cylch gorchwyl (y rhai sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, neu weithdrefn gadarnhaol dros dro neu weithdrefn gwneud cadarnhaol – gweler Pennod 3 isod). Os ydynt yn dymuno cyflwyno adroddiad ar offeryn statudol o'r fath, rhaid iddynt hysbysu Llywodraeth Cymru o'u bwriad i wneud hynny heb fod yn hwyrach na saith diwrnod ar ôl i'r offeryn statudol gael ei osod gerbron y Senedd. Yn ychwanegol, mae Rheol Sefydlog 17.56 yn caniatáu i unrhyw bwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar faterion o fewn ei gylch gorchwyl ac mae wedi'i defnyddio yn y gorffennol i gyflwyno adroddiadau ar is-ddeddfwriaeth.

*Y Cyfarfod Llawn*

2.48 Fel y nodir ym Mhennod 3 isod, mae gan y Senedd rôl o ran cymeradwyo neu ddirymu rhai eitemau o is-ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn digwydd mewn Cyfarfod Llawn, lle caiff holl Aelodau'r Senedd fod yn bresennol. Dylai'r swyddogion fod yn ymwybodol o'r pryderon a all fod gan yr Aelodau ynghylch y ddeddfwriaeth, neu bynciau perthynol, er mwyn nodi unrhyw bynciau a allai godi.

*Y Llywydd*

2.49 Y Llywydd yw awdurdod uchaf y Senedd ac mae'n cadeirio'r cyfarfod o'r cyfan o'r 60 o Aelodau'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn, gan barhau'n wleidyddol ddiduedd bob amser. Swyddogaethau'r Llywydd yw:

- cadeirio Cyfarfodydd Llawn;
- penderfynu ar gwestiynau ynglŷn â dehongli'r Rheolau Sefydlog neu sut i'w cymhwyso;
- cynrychioli'r Senedd mewn trafodaethau ag unrhyw gyrff eraill, boed y tu mewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar y Senedd; ac
- unrhyw swyddogaethau eraill a roddir gan unrhyw ddeddfiad, gan y Senedd neu gan y Rheolau Sefydlog.

*Comisiwn y Senedd*

2.50 Comisiwn y Senedd yw corff corfforaethol y Senedd. Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar aelod arall a enwebir gan y prif bleidiau gwleidyddol. Cyflogeion y Comisiwn yw staff y Comisiwn ac fe'u harweinir gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd.

**Rhanddeiliaid**

2.51 Mae rhanddeiliaid at ei gilydd yn cynnwys y bobl y mae'r is-ddeddfwriaeth yn effeithio arnyn nhw, y bobl a'r sefydliadau a fydd yn cyflawni'r is-ddeddfwriaeth, a'r bobl a'r sefydliadau sydd â'r arbenigedd mwyaf yn y pwnc dan sylw. Mae'r rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth sylweddol, ac yn aml y bobl a fydd yn profi gwir ganlyniadau'r is-ddeddfwriaeth; gan hynny mae angen i'w profiad a'u tystiolaeth, ynghyd â'u dylanwad ar eraill, gael eu cymryd i ystyriaeth. O ran ymgynghori, gweler hefyd Bennod 4, paragraffau 4.34-4.37; Pennod 5, paragraffau 5.14-5.17; a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ymgynghori sydd ar gael ar ei mewnrwyd.

# PENNOD 3 – DEALL IS-DDEDDFWRIAETH

**Mae'r bennod hon yn nodi:**

- **o ble y gall yr angen am is-ddeddfwriaeth ddod a sut mae'n cael ei defnyddio'n aml;**
- **y gwahanol fathau o is-ddeddfwriaeth; a**
- **pha weithdrefnau gwahanol a all fod yn gymwys i is-ddeddfwriaeth.**

### Yr angen am is-ddeddfwriaeth a sut mae'n cael ei defnyddio'n aml

3.1 At ei gilydd, nid yw deddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys y manylion ar gyfer llawer o'r materion ategol a gweithdrefnol sy'n angenrheidiol i roi ei effaith i'r polisi a ymgorfforir ynddi. Ni fyddai'n ymarferol i bob manylyn gael ei gynnwys bob amser mewn deddfwriaeth sylfaenol, a fyddai wedyn gryn dipyn yn hirach ac fel arfer yn golygu bod angen i ragor o ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei phasio er mwyn gwneud unrhyw newidiadau.

3.2 O ganlyniad, gall deddfwriaeth sylfaenol roi pwerau i Weinidogion Cymru (ac weithiau i gyrff eraill) i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n gallu nodi elfennau technegol a manwl y polisi er mwyn ei weithredu'n llawn.

3.3 Mae is-ddeddfwriaeth fel arfer yn ymwneud â newidiadau manwl yn y gyfraith a wneir o dan bwerau sy'n deillio o Ddeddf (neu Fesur) sy'n bod eisoes. Defnyddir is-ddeddfwriaeth i newid y gyfraith. Yn aml iawn, yr angen i roi polisi Llywodraeth Cymru ar waith sy'n peri bod angen newid y gyfraith drwy is-ddeddfwriaeth. Gall yr angen hwn godi mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft o ganlyniad i'r canlynol:

- dyletswydd o dan ddeddfwriaeth sylfaenol;
- dyfarniad llys;
- ymrwymiad mewn maniffesto;
- penderfyniad gan y Gweinidogion;
- adolygiad parhaus fel rhan o'r cylch datblygu polisi;
- newidiadau canlyniadol sy'n deillio o bolisïau eraill Llywodraeth Cymru;
- problemau gweithredol ymarferol a nodir gan randdeiliaid;
- trefniadau pontio Ewropeaidd; neu
- newidiadau yng nghyfraith Ewrop.[5]

### Ystyriaethau cyffredinol

3.4 Gan hynny, gall gael ei defnyddio at amrywiaeth eang o ddibenion. Gall y rhain amrywio o faterion cymharol gul a thechnegol, megis amseriadau diwrnod ysgol, i faterion mwy arwyddocaol, megis sefydlu

[5] Gweler paragraff 2.39 a throednodyn 4 uchod.

corff cyhoeddus newydd fel Cyfoeth Naturiol Cymru, neu ad-drefnu cyrff y GIG.

3.5 Mae defnyddio is-ddeddfwriaeth i wneud newidiadau manwl yn y gyfraith yn caniatáu i gyfreithiau gael eu deddfu mewn modd sy'n hwyluso swm cymesur o waith craffu yn y Senedd ar faterion technegol. Mae hyn yn fodd i'r Senedd ganolbwyntio mwy o'i gwaith craffu ar faterion egwyddor a newidiadau polisi arwyddocaol, fel y rhai a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol.

3.6 Gall is-ddeddfwriaeth fod yn ddigon hyblyg i ymdrin yn gyflym ag amgylchiadau sy'n newid. Er enghraifft, er bod amserau arwain hir yn aml wrth ddatblygu pob math o ddeddfwriaeth, pan fydd y broses graffu wedi'i chyrraedd, gall yr is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud a dod i rym mewn mater o ddyddiau neu wythnosau, lle byddai taith drwy'r Senedd fel arfer yn cymryd nifer o fisoedd. Gall is-ddeddfwriaeth gael ei defnyddio hefyd mewn argyfyngau pan fydd angen gweithredu'n gyflym iawn, oherwydd gall offeryn statudol, mewn argyfwng, gael ei ddrafftio, ei ddeddfu a'i ddwyn i rym mewn mater o oriau.

3.7 Y Gweinidogion sy'n gwneud is-ddeddfwriaeth ran amlaf ond fe all gael ei gwneud gan bobl a chyrff eraill hefyd. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- Gorchmynion Ffyrdd Dros Dro (e.e. i osod terfyn cyflymder dros dro ar ddarn penodol o ffordd) a wneir gan weision sifil o dan awdurdod y Gweinidog;
- Rheolau sy'n cael eu gwneud a'u cyhoeddi gan Lywydd Tribiwnlys y Gymraeg;
- Y Cod Ymarfer ar Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 a ddyroddir gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol.

**MATHAU O IS-DDEDDFWRIAETH**

3.8 Fel y trafodir isod, gall is-ddeddfwriaeth fod ar lawer ffurf. Fel arfer, y rhiant-Ddeddf fydd yn penderfynu ar y math o is-ddeddfwriaeth a'i ffurf.

3.9 Bydd cyfreithwyr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn gallu gwirio a chynghori'r swyddogion polisi ar eu hasesiad o'r pwerau y caiff Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth odanynt er mwyn rhoi effaith i ofynion polisi. Byddant hefyd yn gwirio ac yn cynghori ar sut mae'r swyddogion polisi yn asesu pa weithdrefn y dylai'r is-ddeddfwriaeth ei dilyn er mwyn gwneud hynny. Mae hyn hefyd yn cael ei nodi fel arfer yn y Ddeddf neu'r Mesur sy'n rhoi'r pwerau i wneud yr is-ddeddfwriaeth.

3.10 Mae'n bwysig cael trafodaeth gynnar gyda'r Gwasanaethau Cyfreithiol, Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant, Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol ac Arweinwyr Deddfwriaeth y Grŵp priodol wrth weithio ar is-ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn galluogi'r swyddogion polisi i gynllunio'n briodol a sicrhau bod yr adnoddau ar gael i gyflwyno'r is-

ddeddfwriaeth yn brydlon. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatblygu a chynllunio is-ddeddfwriaeth ym Mhenodau 4 a 5.

3.11 Mae llawer o is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru'n cael ei wneud drwy **offeryn statudol** (OS). Mae'r term yn deillio o adran 1 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 ac mae'n gymwys pan fo unrhyw bŵer i wneud is-ddeddfwriaeth yn cael ei arfer gan un o Weinidogion y Goron (neu, yn ôl y digwydd, gan Weinidogion Cymru) pan fo'r pŵer yn darparu ar gyfer cael ei arfer drwy offeryn statudol. Prif arwyddocâd y penderfyniad a yw darn o is-ddeddfwriaeth yn cael ei wneud ar ffurf offeryn statudol ai peidio yw cymhwyso'r darpariaethau yn Neddf 1946 ynglŷn ag argraffu a chyhoeddi (i gael rhagor o wybodaeth am argraffu a chyhoeddi is-ddeddfwriaeth, gweler Pennod 4 isod, ym mharagraffau 4.96-4.104).

3.12 Ceir enghreifftiau o'r mathau o is-ddeddfwriaeth yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Mathau o is-ddeddfwriaeth**

| **Math** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Gorchmynion | Offerynnau statudol yw Gorchmynion fel arfer a'r Gweinidogion sy'n tueddu i'w gwneud. Polisi Llywodraeth Cymru ar ddrafftio ar hyn o bryd[6] yw darparu ar gyfer pwerau i wneud gorchmynion mewn perthynas â chychwyn deddfwriaeth sylfaenol yn unig. |
| Rheoliadau | Offerynnau statudol yw Rheoliadau fel arfer a'r Gweinidogion sy'n tueddu i'w gwneud. Bydd pwerau i wneud rheoliadau yn cael eu cymryd yn aml i nodi manylion y systemau a sefydlir gan y ddeddfwriaeth sylfaenol. |
| Canllawiau Statudol | Mae'r rhain yn cydategu darpariaethau Deddf neu Fesur drwy roi canllawiau ynghylch sut y disgwylir i swyddogaethau neu bwerau penodol gael eu harfer. Bydd y pwysau sydd i'w rhoi ar gydymffurfio â'r canllawiau yn dibynnu ar ddarpariaethau'r rhiant-Ddeddf. Un enghraifft yw canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf i helpu'r cyrff cyhoeddus i bennu amcanion llesiant, cyhoeddi datganiad llesiant, adolygu amcanion llesiant ac adrodd ar gynnydd. |

[6] Fel y'i nodir yn _Drafftio deddfau i Gymru: canllaw_ (Hydref 2019)

| Math | Disgrifiad |
|---|---|
| Codau Ymarfer | Mae Codau Ymarfer yn ddogfennau sy’n nodi’r safonau a’r arferion a ddisgwylir oddi wrth y rhai sy’n dod o dan y rhiant-Ddeddf. Bydd y pwysau sydd i’w rhoi ar gydymffurfio â’r Cod yn dibynnu ar ddarpariaethau’r rhiant-Ddeddf. Er enghraifft, mae Gweinidogion Cymru yn dyroddi codau ymarfer ynghylch gofalu am fathau amrywiol o anifeiliaid o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Nid yw torri darpariaeth mewn cod yn drosedd ynddo’i hun ond, os dygir achos yn erbyn rhywun am drosedd lles o dan y Ddeddf, fe all y llys ystyried i ba raddau y mae wedi cydymffurfio â’r cod wrth benderfynu a yw wedi cyflawni trosedd neu a yw wedi bodloni’r safon gofal sy’n ofynnol. |
| Cyfarwyddydau | Modd (yn achos y llywodraeth) i’r Gweinidogion neu uwch swyddogion Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddiadau cyfreithiol-rwymol i gorff cyhoeddus ar sut mae’n arfer ei swyddogaethau. Gall Deddf neu Fesur roi pŵer i Weinidog i roi Cyfarwyddydau er mwyn galluogi’r Gweinidog hwnnw (neu uwch swyddogion) i roi cyfarwyddiadau i gorff cyhoeddus neu grŵp o gyrff cyhoeddus nad ydynt o dan reolaeth uniongyrchol y Gweinidog.<br><br>Er hynny, gan eu bod, ar y cyfan, o ddiddordeb i grŵp cymharol gyfyngedig o gyrff cyhoeddus, nid yw Cyfarwyddydau fel arfer yn cael eu gwneud ar ffurf offerynnau statudol, ond yn hytrach eu cyhoeddi neu eu hysbysu i’r cyrff yr effeithir arnynt fel y gwêl y Gweinidog yn dda a/neu fel y mae’r rhiant-Ddeddf yn gofyn. |
| Rheolau | Yn gyffredinol, bydd Rheolau’n nodi gweithdrefnau, er enghraifft rheolau sy’n llywodraethu gweithdrefnau llys. Mae Rheolau’n cael eu gwneud gan y Gweinidogion fel arfer neu, os yw hynny wedi’i bennu yn y rhiant-Ddeddf, gan uwch farnwr (er enghraifft câi rhai Rheolau Tribiwnlys eu gwneud gan Lywydd y Tribiwnlys) neu gorff arall (er enghraifft, gall Gofal Cymdeithasol Cymru wneud rheolau ynghylch eu prosesau cofrestru, megis gofynion hyfforddi i ddarpar aelodau o’r gofrestr). |

| Math | Disgrifiad |
|---|---|
| Cynlluniau | Modd i Weinidogion Cymru (neu eraill) nodi manylion ynghylch sut y bydd system yn gweithredu. Er enghraifft, mae adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun ("cynllun llywodraeth leol") sy'n nodi sut maen nhw'n bwriadu cynnal a hybu llywodraeth Leol yng Nghymru, wrth arfer eu swyddogaethau. |
| Is-ddeddfau | Deddfau sydd i'w rhoi ar waith mewn modd cyfyngedig yw is-ddeddfau (yn gyfyngedig i fannau penodol fel arfer) ac maen nhw'n cael eu gwneud gan awdurdodau lleol neu gyrff penodol eraill (e.e. yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) i reoli gweithgareddau pobl mewn mannau cyhoeddus, megis parciau cyhoeddus. |

3.13 Bydd y rhiant-Ddeddf yn nodi'r math o is-ddeddfwriaeth y gellir ei gwneud o dan y Ddeddf honno. Ond, mae adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ar wahanol ffurfiau. Mae'n gymwys pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud is-ddeddfwriaeth drwy offeryn statudol, a bod y pŵer yn pennu bod yr is-ddeddfwriaeth i'w gwneud ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn. Mae adran 39 yn galluogi'r is-ddeddfwriaeth i gael ei gwneud ar unrhyw un o'r ffurfiau hynny, ni waeth p'un a bennwyd. Er enghraifft, gellir defnyddio pŵer i wneud gorchymyn er mwyn gwneud rheoliadau, neu i'r gwrthwyneb. Prif ddiben adran 39 yw hwyluso'r cyfuniad o ddarpariaethau a geir o dan wahanol bwerau yn yr un offeryn statudol. Am ddisgrifiad llawnach, gweler Nodiadau Esboniadol Deddf 2019.

3.14 Mae adran 39 yn gymwys i unrhyw bŵer neu ddyletswydd sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau, rheolau neu orchymyn drwy offeryn statudol, ni waeth sut y crëwyd y pŵer neu'r ddyletswydd na pha bryd. Mae'n gymwys i bwerau a dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth ddatganoledig a deddfwriaeth y DU, ac o dan ddeddfwriaeth a basiwyd cyn ac ar ôl i'r adran ddod i rym – er bod hyn yn amodol ar rai terfynau y gall cyfreithwyr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol eu hegluro ymhellach. Pan nad yw adran 39 o Ddeddf 2019 ar gael, dim ond i wneud y math penodol o is-ddeddfwriaeth a nodir yn y rhiant-Ddeddf y bydd modd i'r pŵer gael ei ddefnyddio.

## GWEITHDREFNAU AR GYFER GWNEUD OFFERYNNAU STATUDOL AC IS-DDEDDFWRIAETH ARALL

3.15 Fel arfer, mae'r weithdrefn sydd i'w defnyddio i wneud is-ddeddfwriaeth wedi'i nodi yn y rhiant-Ddeddf. Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cadarnhau pa weithdrefn y mae'n rhaid i'r is-ddeddfwriaeth ei dilyn, os oes rhaid iddi ddilyn gweithdrefn o gwbl.

3.16 Dyma'r ddwy weithdrefn fwyaf cyffredin a ddefnyddir:

- Y Weithdrefn Negyddol – ar gyfer is-ddeddfwriaeth y caniateir iddi gael ei gwneud a dod i rym oni bai bod y Senedd yn gwrthwynebu hynny, a ddynodir drwy gytuno â chynnig dirymu;

- Y Weithdrefn Gadarnhaol – pan fo rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig cyn iddi ddod yn ddeddf gwlad.

3.17 Mae rhagor o fanylion y ddwy weithdrefn hyn, a gweithdrefnau eraill, i'w gweld isod. Gan fod Rheolau Sefydlog y Senedd ar gyfer y gweithdrefnau hyn yn disgrifio'r rhain yn bennaf fel gweithdrefnau ar gyfer offerynnau statudol, bydd gweddill yr adran hon yn disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer offerynnau statudol. Er hynny, mae'n bwysig bod yn ymwybodol y gall unrhyw un neu ragor o'r gweithdrefnau hyn fod yn gymwys i is-ddeddfwriaeth arall hefyd.

3.18 Mae hefyd yn werth nodi, o dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, fod modd cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n dod o dan weithdrefnau gwahanol yn y Senedd mewn un offeryn statudol sy'n dod o dan yr un fwyaf llym o'r gweithdrefnau hynny – i gael y manylion, gweler Pennod 6.

3.19 Yn olaf, mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r is-ddeddfwriaeth, ac eithrio mewn achosion prin iawn lle mae'r rhiant-Ddeddf yn darparu fel arall, yn gallu cael ei diwygio neu ei haddasu gan y Senedd. Y cyfan y mae'r Senedd yn ei wneud yw mynegi ei dymuniad i'r ddeddfwriaeth gael ei dirymu neu ei phasio'n ddeddf gwlad, yn ôl y digwydd.

**Y Weithdrefn Negyddol (yn amodol ar ddirymu)**

3.20 Mae offeryn statudol sy'n dod o dan y weithdrefn negyddol yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru. Yn gyntaf, mae'r Gweinidog yn cymeradwyo drafft terfynol yr offeryn statudol, yn ei lofnodi, ac yn cytuno i'w osod gerbron y Senedd. Bydd yr offeryn statudol yn pennu pwynt mewn amser pan fydd yn dod i rym. Wedyn, rhaid i'r offeryn statudol gael ei osod gerbron y Senedd.

3.21 Caiff y Senedd bleidleisio i ddirymu'r offeryn statudol o fewn cyfnod penodol. Mae hyn yn golygu y caiff unrhyw Aelod o'r Senedd gyflwyno cynnig sy'n gofyn am gytundeb y Senedd i ddirymu'r ddeddfwriaeth. Bydd Pwyllgor Busnes y Senedd yn penderfynu wedyn a gaiff y cynnig ei drafod ai peidio. Os bydd y Pwyllgor yn cytuno, bydd yn trefnu dadl ar y cynnig dirymu yn y Cyfarfod Llawn (fel arfer yn ystod amser nad yw'n amser i'r llywodraeth).

3.22 Mae'r cynnig i ddirymu'r offeryn statudol yn gofyn am bleidlais fwyafrifol er mwyn i'r Senedd gytuno arni. Os bydd y Senedd yn pleidleisio i ddirymu'r ddeddfwriaeth, yna, er bod unrhyw gamau sydd eisoes wedi'u cymryd o dan yr offeryn yn gyfreithlon, does dim modd cymryd unrhyw gamau pellach. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n ofynnol i'r Llywodraeth gyflwyno offeryn o dan adran 5 o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 i'w ddiddymu a'i ddileu o'r llyfr statudau i bob pwrpas.

*Cyfnod dirymu*

3.23 Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu bod rhaid i gynnig dirymu gael ei drafod a bod rhaid pleidleisio arno o fewn cyfnod o 40 niwrnod calendr. Mae'r cyfnod o 40 niwrnod yn cychwyn o ddyddiad gosod yr offeryn statudol gerbron y Senedd, a chyfeirir ato weithiau fel y cyfnod dirymu. Mae hyn yn golygu y gallai offeryn statudol ddod i rym ond wedyn bod yn destun cynnig dirymu llwyddiannus yn nes ymlaen.

3.24 Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn cyfyngu hawl Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n dod o dan y weithdrefn negyddol, tra bo'r Senedd ar doriad; ond, nid yw'r cyfnod dirymu yn cynnwys unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd ar doriad o fwy na 4 diwrnod. Er enghraifft, os caiff yr is-ddeddfwriaeth ei gosod yn ystod toriad yr haf yn y Senedd, mae'r cyfnod dirymu yn dechrau ar y diwrnod eistedd cyntaf ar ôl iddi gael ei gosod (ym mis Medi). Gweler Tabl 2 yn nes ymlaen yn y bennod hon i gael enghreifftiau sy'n dangos hyn.

3.25 Dylid rhagdybio y bydd eitem o is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud a'i gosod pan fydd y Senedd yn eistedd, oni bai bod rhesymau polisi neu resymau ymarferol da dros wneud fel arall.

*Y confensiwn 21 diwrnod ar gyfer offerynnau statudol*

3.26 Drwy gonfensiwn, nid yw'r mwyafrif o offerynnau statudol sy'n dod o dan y weithdrefn negyddol yn dod i rym tan 21 diwrnod o leiaf ar ôl cael eu gosod. (Cyfeirir at y confensiwn hwn yn gyffredinol fel "y rheol 21 diwrnod", er nad yw'n rheol fel y cyfryw.)

3.27 Diben y confensiwn yw rhoi digon o hysbysiad i'r rhai y bydd yr offeryn yn effeithio arnynt i ganiatáu iddynt baratoi cyn iddo ddod i rym. Mae hefyd yn caniatáu gwaith craffu ar yr offeryn statudol gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn unol â'r Rheolau Sefydlog (gweler Pennod 2 uchod, ym mharagraff 2.45, a Phennod 4 isod, paragraff 4.72 ymlaen, i gael rhagor o fanylion am rôl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wrth graffu ar is-ddeddfwriaeth).

3.28 Mae'r 21 diwrnod yn cael eu cyfrif fel 21 diwrnod calendr o ddyddiad gosod yr offeryn statudol gerbron y Senedd. Yna, gall yr offeryn statudol ddod i rym ar yr ail ddiwrnod ar hugain (gan gyfrif y dyddiad

gosod fel y diwrnod cyntaf). Gall offerynnau statudol ddod i rym hefyd ar bwynt sy’n hwyrach na’r ail ddiwrnod ar hugain. Yn wahanol i’r cyfnod dirymu, mae’r cyfnod o 21 diwrnod yn cynnwys dyddiau pan fydd y Senedd ar doriad, felly mae’n bosibl y bydd cyfnod hir yn mynd heibio rhwng y dod i rym a diwedd y cyfnod dirymu.

3.29 Gall offerynnau statudol ddod i rym cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod, ond mae Deddf Offerynnau Statudol 1946 yn ei gwneud yn ofynnol bod hysbysiad yn cael ei roi i’r Llywydd yn tynnu sylw at y ffaith nad oes copi ohono wedi’i osod gerbron y Senedd o leiaf 21 diwrnod cyn i’r offeryn statudol ddod i rym ac esbonio pam. Mae achosion o offerynnau statudol sy’n dod i rym cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod oherwydd amgylchiadau eithriadol yn brin.

3.30 Os ydych yn ymdrin ag offeryn statudol y gallai fod angen iddo ddod i rym cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod, cysylltwch ag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant cyn gynted â phosibl i gael cyngor manwl ar y gweithdrefnau clirio a hysbysu y mae angen eu dilyn.

*Enghreifftiau ymarferol*

3.31 Mae Tabl 2 isod yn nodi enghreifftiau o amserlenni ar gyfer gwneud a gosod is-ddeddfwriaeth a dod â hi i rym a dyddiadau’r cyfnod 21 diwrnod a’r cyfnod dirymu, sy’n dangos effaith toriadau ar y cyfnod dirymu. Mae’r tabl yn dangos y gallai offeryn statudol gael ei wneud a’i osod cyn toriad yr haf, dod i rym yn ystod toriad yr haf, ond bod yn agored o hyd i gael ei ddirymu tan fis Hydref. Mae angen i’r swyddogion fod yn effro i’r materion hyn a all ddeillio o’r cydadwaith rhwng y cyfnod 21 diwrnod, y cyfnod dirymu a thoriadau.

**Tabl 2: enghreifftiau o ddyddiadau ar gyfer gwneud a gosod offerynnau statudol sy'n dod o dan y weithdrefn negyddol, dod â hwy i rym a'u dirymu**

| Gwneud | Gosod | Y diwrnod cyntaf ar gyfer dod i rym ar ôl y cyfnod 21 diwrnod | Yn dod i rym | Cyfnod dirymu | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Dydd Iau 7 Mai 2020 | Dydd Llun 11 Mai 2020 | Dydd Llun 1 Mehefin 2020 | Dydd Mercher 3 Mehefin 2020 | Dydd Llun 11 Mai – dydd Gwener 26 Mehefin 2020 | Mae'r cyfnod dirymu yn cynnwys toriad hanner tymor: 25 Mai i 31 Mai 2020 |
| Dydd Iau 28 Mai 2020 | Dydd Llun 1 Mehefin 2020 | Dydd Llun 22 Mehefin 2020 | Dydd Sadwrn 27 Gorffennaf 2020 | Dydd Llun 1 Mehefin – dydd Gwener 10 Gorffennaf 2020 | Dim dyddiadau toriad yn effeithio ar y cyfnod dirymu |
| Dydd Mercher 17 Mehefin 2020 | Dydd Gwener 19 Mehefin 2020 | Dydd Gwener 10 Gorffennaf 2020 | Dydd Llun 22 Mehefin 2020 | Dydd Gwener 19 Mehefin – dydd Mawrth 22 Medi 2020 | Dyddiad dod i rym cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod oherwydd amgylchiadau eithriadol, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gael ei hysbysu a chael esboniad o'r rheswm pam<br>Y cyfnod dirymu yn pontio toriad yr haf: 20 Gorffennaf – 13 Medi 2020 |
| Dydd Mercher 8 Gorffennaf 2020 | Dydd Gwener 10 Gorffennaf 2020 | Dydd Gwener 31 Gorffennaf 2020 | Dydd Mawrth 4 Awst 2020 | Dydd Gwener 10 Gorffennaf – dydd Mawrth 13 Hydref 2020 | Y cyfnod dirymu yn pontio toriad yr haf: 20 Gorffennaf – 13 Medi 2020 |
| Dydd Mawrth 11 Awst 2020 | Dydd Gwener 14 Awst 2020 | Dydd Gwener 4 Medi 2020 | Dydd Mawrth 8 Medi 2020 | Dydd Llun 14 Medi – dydd Gwener 23 Hydref 2020 | Gan fod yr offeryn statudol wedi'i osod yn ystod toriad yr haf (20 Gorffennaf – 13 Medi 2020) mae'r cyfnod dirymu yn parhau ar ddiwedd toriad yr haf. |

## Y Weithdrefn Gadarnhaol (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd)

3.32 Rhaid i offeryn statudol sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol gael ei gymeradwyo gan y Senedd cyn iddo gael ei wneud neu ei ddwyn i rym gan Weinidogion Cymru. Yn gyntaf, mae'r Gweinidog yn cymeradwyo drafft terfynol yr offeryn statudol ac yn cytuno i'w osod ar ffurf drafft gerbron y Senedd. Dim ond os caiff ei gytuno drwy gynnig a drafodir yn y Cyfarfod Llawn y caiff y Gweinidog lofnodi'r offeryn statudol er mwyn ei wneud. Gall y ddeddfwriaeth ddod i rym ar unrhyw adeg benodol ar ôl cael ei chytuno a'i gwneud.

3.33 Mae'r Rheolau Sefydlog yn dweud na chaniateir trafod y cynnig cyn pa un bynnag o'r ddau ddigwyddiad a ganlyn a ddaw yn gyntaf:

- Bod yr offeryn statudol wedi'i osod ers 20 diwrnod calendr (heb gyfrif diwrnodau yn ystod toriadau o fwy na 4 diwrnod), neu
- Fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, y Pwyllgor Cyllid (yn achos deddfwriaeth ynglŷn â threthi datganoledig) neu unrhyw Bwyllgor arall sydd wedi rhoi hysbysiad, wedi ystyried yr offeryn statudol ac wedi cyflwyno adroddiad arno cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

3.34 Mae angen mwyafrif o bleidleisiau o blaid er mwyn i'r offeryn statudol gael ei gymeradwyo (oni bai nad oes yr un Aelod yn gwrthwynebu'r cynnig, ac os felly bernir bod y cynnig wedi'i dderbyn o dan Reol Sefydlog 12.36). Os bydd y mwyafrif o'r Aelodau yn pleidleisio yn erbyn y cynnig, ni chaiff y ddeddfwriaeth ei chymeradwyo ac ni all gael ei gwneud. Os bydd y bleidlais yn gyfartal, mae Rheol Sefydlog 6.20 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd bleidleisio yn negyddol, gan ddilyn yr egwyddor na ddylai penderfyniadau gael eu gwneud heb gefnogaeth y mwyafrif pan nad oes rhagor o drafodaeth ar fater yn bosibl; ac ni fydd yr offeryn statudol yn cael ei gymeradwyo.

## Gweithdrefnau eraill

3.35 Y gweithdrefnau cadarnhaol a negyddol uchod yw'r rhai mwyaf cyffredin a gymhwysir at offerynnau statudol. Er hynny, gellir cael amrywiadau ar y gweithdrefnau hyn, neu weithdrefnau eraill, a nodir yn y rhiant-Ddeddf. Mae'r adran ganlynol yn nodi rhai a all godi. Dylai cyfreithwyr y Gwasanaethau Cyfreithiol allu egluro'r union ofynion ynglŷn â gwneud yr offerynnau statudol mewn achosion unigol.

## Gosod yn unig

3.36 Mae'r weithdrefn hon yn gymwys pan nad yw'r rhiant-Ddeddf yn nodi proses graffu yn y Senedd neu yn Senedd y DU, ond gofyniad ynglŷn â gosod yn unig. O ganlyniad, does dim proses graffu ffurfiol yn y Senedd, ac mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud gan y Gweinidog ac yna ei chyflwyno gerbron y Senedd. Er hynny, fe all y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ddewis ei hystyried a

chyflwyno adroddiad arni, os yw'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn ddigon deddfwriaethol ei natur i haeddu ei sylw.

**Dim Gweithdrefn**

3.37 Yn yr achos hwn, nid yw'r rhiant-Ddeddf yn cymhwyso unrhyw weithdrefn na gofyniad ynglŷn â gosod yr offeryn statudol gerbron y Senedd. Yn syml ddigon, mae'n cael ei wneud neu ei gytuno gan y Gweinidog, a daw i rym ar ôl cael ei wneud.

3.38 Mae'r enghreifftiau o offerynnau statudol nad ydynt yn dod o dan unrhyw weithdrefn yn cynnwys:

- gorchymyn cychwyn, sy'n dod â Deddf neu ddarpariaeth benodedig mewn Deddf i rym ar ddyddiad penodedig;
- gorchymyn diwrnod penodedig, sy'n dod ag is-ddeddfwriaeth neu grŵp o is-ddeddfwriaeth i rym ar ddyddiad penodedig.

3.39 Mae'r enghreifftiau o is-ddeddfwriaeth arall nad yw'n cael ei gwneud drwy offeryn statudol ac nad yw'n dod o dan unrhyw weithdrefn yn cynnwys:

- rhai codau ymarfer; a
- chyfarwyddydau.

3.40 Gall y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ystyried sut mae pwerau cychwyn yn cael eu harfer o dan Reol Sefydlog 21.7(iv) a chyflwyno adroddiadau ar hynny. Gan hynny, dylai'r swyddogion hysbysu Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant am unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig o'r fath, gan fod yr Uned yn tynnu sylw y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at orchmynion cychwyn er gwybodaeth, o ran cwrteisi

3.41 O ran is-ddeddfwriaeth nad yw'n cael ei gwneud drwy gyfrwng offeryn statudol, mae Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol hefyd yn darparu rhif cofrestru mewnol cyn ei chyhoeddi.

**Y weithdrefn drafft negyddol**

3.42 Mae'r weithdrefn hon yn debyg i'r weithdrefn negyddol, sef y caiff y Senedd benderfynu peidio â chymeradwyo'r offeryn statudol. Er hynny, nid yw'r offeryn yn cael ei wneud cyn cael ei osod, a bernir felly ei fod wedi'i osod ar ffurf drafft. Ni all yr offeryn statudol gael ei gyhoeddi'n ffurfiol na'i ddwyn i rym, ar ffurf y drafft a osodwyd, nes bod y cyfnod dirymu wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Gall union ofynion y rhiant-Ddeddf amrywio; er enghraifft, mewn rhai achosion mae'n rhaid i orchymyn dim gweithdrefn ar wahân gael ei wneud er mwyn dod â'r offeryn statudol i rym.

## Uwch-weithdrefn negyddol neu gadarnhaol

3.43 Caiff rhai offerynnau statudol eu disgrifio weithiau fel rhai sy'n dod o dan "uwch-weithdrefn" negyddol neu gadarnhaol. Does dim diffiniad penodol o'r gweithdrefnau hyn, ond yn gyffredinol mae eu nodweddion yn cynnwys pŵer i'r Senedd naill ai dirymu neu gymeradwyo'r offeryn statudol, ynghyd â gofynion ynglŷn â'r weithdrefn a nodir yn y rhiant-Ddeddf sydd uwchlaw a'r tu hwnt i'r broses gadarnhaol neu negyddol arferol. Dyma rai enghreifftiau:

- Dyletswydd i ymgynghori ar ddrafft o'r offeryn statudol, naill ai'n gyffredinol neu gyda chyrff neu unigolion penodedig, cyn bod modd ei osod gerbron y Senedd a chael ei ystyried ganddi;
- Gofyniad i'r offeryn statudol gael ei osod gerbron y Senedd am gyfnod hirach nag o dan y weithdrefn arferol, e.e. 60 niwrnod, ac i unrhyw sylwadau sy'n dod i law o fewn y cyfnod hwnnw gael eu hystyried;
- Dyletswydd i osod datganiad o'r newidiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth ddrafft yn sgil ymgynghori neu yn sgil cael sylwadau yn ystod cyfnod gosod estynedig;
- Y weithdrefn a nodir yn adran 19 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, sydd, ymysg pethau eraill, yn caniatáu i'r Senedd benderfynu ymestyn y cyfnod pryd mae'n rhaid i Orchmynion drafft o dan adrannau 13 ac 14 i'r Ddeddf honno gael eu gosod cyn bod modd eu cymeradwyo.

3.44 Pan fo'r rhiant-Ddeddf yn pennu amseriadau ar gyfer ystyriaeth y Senedd ar ddeddfwriaeth, nid yw'r Rheolau Sefydlog sy'n nodi amserlenni ar gyfer ystyriaethau ac adroddiadau'r Pwyllgor yn gymwys. Yn hytrach, caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu amserlen ar gyfer ystyriaethau ac adroddiadau sy'n cyd-fynd â'r amseriadau a nodwyd ar gyfer yr offeryn statudol penodol.

## Y weithdrefn "gadarnhaol dros dro" neu'r weithdrefn "gwneud cadarnhaol"

3.45 O dan y weithdrefn hon, gall yr offeryn statudol ddod i rym ar y diwrnod y caiff ei wneud gan y Gweinidog. Er hynny, oni bai bod y Senedd yn cytuno ar gynnig i gymeradwyo'r offeryn statudol o fewn yr amserlen a bennwyd yn y rhiant-Ddeddf, bydd yr offeryn yn peidio â bod yn effeithiol.

3.46 Mae enghreifftiau i'w cael yn Neddf Treth Trafodiadau Tir ac Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, lle caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu cyfraddau a bandiau ar gyfer y trethi hyn ar unwaith. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau cyn pen 28 diwrnod[7] ar ôl cael eu

[7] Gan ddiystyru unrhyw gyfnod pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

gosod. Yn achos y Deddfau trethi uchod, os na chymeradwyir y rheoliadau, mae yna ddarpariaeth ar gyfer ymdrin ag unrhyw drethi a dalwyd yn ystod y cyfnod pan oedd y cyfraddau a'r bandiau newydd mewn grym.

**Gweithdrefn Arbennig y Senedd**

3.47 Mae rhai pwerau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru (neu, mewn achosion eithriadol, gan y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol) i wneud neu i gadarnhau is-ddeddfwriaeth yn gorfod cydymffurfio â Gweithdrefn Arbennig y Senedd. Cyfeirir at yr is-ddeddfwriaeth hon fel Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig. Mae Gweithdrefn Arbennig y Senedd wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 28. Mae'r pŵer i wneud Gorchmynion Gweithdrefn Arbennig ynglŷn â phwerau datganoledig yn cael ei ddirprwyo gan y Senedd neu gan Senedd y DU i Weinidogion Cymru neu i gorff megis awdurdod lleol. Os yw'r pŵer i wneud Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig wedi'i ddirprwyo i awdurdod lleol neu gorff tebyg arall, dim ond os caiff ei gadarnhau gan y Gweinidogion y gall ddod yn ddeddf gwlad.

3.48 Mae Gorchmynion Gweithdrefn Arbennig fel arfer yn ymwneud yn benodol ag ardal benodol o dir ac ni allant ddod yn ddeddf gwlad tan ar ôl i'r cyhoedd y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt gael cyfle i ddeisebu'r Llywydd yn eu herbyn o dan Weithdrefn Arbennig y Senedd.

3.49 Bydd cyfreithwyr ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn rhoi gwybod i'r swyddogion polisi os yw'r is-ddeddfwriaeth yn dod o dan Weithdrefn Arbennig y Senedd. Mae Gorchmynion Gweithdrefn Arbennig yn brin – un enghraifft yw Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 2008.

3.50 Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Senedd ynghylch Gorchmynion Gweithdrefn Arbennig y Senedd.

# PENNOD 4 – CYFLAWNI IS-DDEDDFWRIAETH

**Mae'r bennod hon yn rhoi canllawiau ar y cyfnodau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth a sut i gynllunio i'w pharatoi a'i chyflawni. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut y bydd is-ddeddfwriaeth yn mynd drwy'r gwahanol weithdrefnau o dan y Rheolau Sefydlog a pha gamau y mae angen eu cymryd ar adegau allweddol.**

### Cyfnodau allweddol wrth wneud is-ddeddfwriaeth

4.1 Mae'r camau allweddol wrth wneud is-ddeddfwriaeth yn debyg, ni waeth pa weithdrefn y caiff ei gwneud odani. Er eu bod yn cael eu dangos ar ffurf linol isod, gall rhai o'r camau allweddol gael eu cymryd yr un pryd neu mewn trefn arall:

- Datblygu'r polisi;
- Cyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol neu Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol;
- Ymgynghori;
- Drafftio'r is-ddeddfwriaeth;
- Drafftio dogfennau ategol a chytuno arnynt;
- Gwneud yr is-ddeddfwriaeth derfynol;
- Gwaith craffu yn y Senedd; ac
- Argraffu a chyhoeddi.

4.2 Mae angen cymeradwyaeth y Gweinidogion i bob un o'r cyfnodau hyn, er bod modd gofyn am gymeradwyaeth weithiau ar gyfer sawl cyfnod yr un pryd. Ceir rhagor o fanylion am y dogfennau ategol y cyfeirir atynt uchod ym mharagraff 4.49 ymlaen.

4.3 Sylwch: swyddogion polisi sy'n gyfrifol am ddrafftio rhai mathau o is-ddeddfwriaeth nad ydyn nhw'n offeryn statudol, fel Cod Ymarfer, y cyfeirir atynt weithiau fel "cyfraith feddal". Dan amgylchiadau o'r fath, nid yw'r camau o gyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol a gofyn iddyn nhw ddrafftio'r ddeddfwriaeth yn gymwys. Ond, mae nodau, cysyniadau a phrosesau datblygu'r is-ddeddfwriaeth isod yn dal yn berthnasol.

### DATBLYGU POLISI

4.4 Mae paragraff 3.3 uchod ym Mhennod 3 yn nodi nifer o'r ffyrdd gwahanol y gellir nodi'r angen am is-ddeddfwriaeth. Pan fydd y polisi neu'r newid polisi wedi'i nodi, rhaid i'r swyddogion polisi ymgysylltu â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cyfreithiol i nodi pa bwerau sy'n bodoli eisoes i hwyluso'r newid mewn polisi a'r cyfrwng deddfwriaethol gorau i fwrw ymlaen â hyn. Gallai hyn arwain at yr angen i wneud is-ddeddfwriaeth.

4.5 Mae rhagor o ganllawiau ar ddatblygu polisi ar gael ar fewnrwyd Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, mae Pennod 7 o'r Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad, yn yr adran ynghylch 'Datblygu polisi ac ymgynghori' ym mharagraffau 7.10-7.21, yn cyfeirio at ddatblygu polisi ar gyfer Biliau'r Senedd. Er hynny, mae'r un egwyddorion yn gymwys hefyd wrth ddatblygu polisi sy'n arwain at is-ddeddfwriaeth.

4.6 Dylai sicrhau bod yna sylfaen dystiolaeth gadarn fod yn rhan annatod o'r broses o lunio polisïau. Dylai gwaith ar yr asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill (gweler paragraffau 4.54-4.59 isod) ddechrau ar ddechrau'r broses o lunio polisïau a chael ei adolygu'n barhaus drwy gydol y broses.

**Gwneud Penderfyniadau Da**

4.7 Mae gwneud deddfau da yn cael ei seilio ar wneud penderfyniadau da. Nid yw pwerau Gweinidogion Cymru yn ddiderfyn a rhaid iddynt weithredu o fewn y gyfraith. Wrth benderfynu a ydyn nhw wedi gwneud hynny, bydd y llysoedd yn cymhwyso egwyddorion y gyfraith weinyddol. Er enghraifft, rhaid i Weinidogion Cymru weithredu'n deg, yn gymesur, yn ddidwyll, a defnyddio'u pwerau'n briodol ac at y diben y'u bwriadwyd ar ei gyfer. Rhaid hefyd iddyn nhw ddefnyddio'u pwerau mewn ffordd sy'n gydnaws â hawliau dynol (e.e. hawliau i breifatrwydd, a mwynhau eiddo'n heddychlon); ac sy'n gydnaws â chyfraith yr UE (e.e. y Gyfarwyddeb Gwasanaethau). Os na wnânt hynny, gall yr is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pwerau hyn gael ei herio drwy adolygiad barnwrol yn y llysoedd ac fe allai gael ei diddymu. Os yw hyn yn digwydd gallai Llywodraeth Cymru orfod talu costau cyfreithiol ac iawndal, ac wynebu niwed i'w henw da.

4.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i helpu'r awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn Gwneud penderfyniadau da (gan gynnwys penderfyniadau ar ddeddfwriaeth) sy'n gyfreithlon ac sy'n cydymffurfio ag egwyddorion Rheolaeth y Gyfraith.

**Cyfraith hygyrch**

4.9 Mae pob prosiect deddfu, gan gynnwys pob darn o is-ddeddfwriaeth, yn rhan o gyfrifoldeb y Llywodraeth i gynnal rheolaeth y gyfraith. Creu a chynnal system effeithiol o gyfreithiau i ddiogelu rhyddid a hawliau a hybu llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yw un o swyddogaethau allweddol llywodraeth. Bydd pob darn o is-ddeddfwriaeth yn ffurfio rhan fach o'r system gyfreithiol ehangach o fewn y fframweithiau statudol presennol. Bydd angen iddo weithio'n dda i'r rhai a fydd yn ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwnnw.

4.10 Y nod yw llunio cyfraith sy'n hygyrch: hynny yw, cyfraith sy'n glir ac yn sicr o ran ei heffaith, yn ogystal â bod ar gael yn rhwydd ac yn hawdd symud drwyddi. Mae angen i hyn fod yn wir nid yn unig mewn

perthynas â Deddfau unigol ac is-ddeddfwriaeth, ond gyda'i gilydd hefyd – yr holl gyfraith ar bwnc penodol a'r llyfr statudau yn ei gyfanrwydd.

*Statws cyfartal testunau Cymraeg a Saesneg*

4.11 Pan fo is-offeryn Cymreig yn cael ei ddeddfu yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae adran 5 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu bod i'r ddau destun iaith statws cyfartal i bob diben. Mae hyn yn golygu mai mynegiant llawn y gyfraith yw'r hyn a geir yn y ddau destun, nid dim ond un. Mae'r arfer o ddeddfu'n ddwyieithog i Gymru wedi hen ennill ei blwyf. Mae is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru, bron yn ddieithriad, wedi'i gwneud yn y ddwy iaith.[8] Ceir rhagor o wybodaeth am adran 5 yn Nodiadau Esboniadol Ddeddf 2019.

## Cyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol[9]

4.12 Pan fydd swyddogion polisi am i gyfreithwyr ddrafftio offeryn statudol, dylid cynnal cyfarfod cychwynnol rhwng y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r swyddogion polisi bob amser cyn i gyfarwyddiadau gael eu hanfon i fwydo'r broses gyfarwyddo.

4.13 Er mwyn dechrau gwaith ar offeryn statudol, bydd ar y Gwasanaethau Cyfreithiol angen:

a. Cydsyniad y Gweinidogion i'r gwaith drafftio;
b. Amserlen ddrafft; ac
c. Cyfarwyddiadau.

4.14 Dylai'r cyfarwyddiadau ddefnyddio iaith syml a chlir a therminoleg gyson sydd mor rhydd rhag jargon ag y mae'r deunydd yn ei ganiatáu.

4.15 Bydd cyfarwyddiadau yn wahanol, gan ddibynnu ar y cyd-destun, ond dylent ymdrin â'r pwyntiau canlynol mewn ffordd resymegol. Gall manylion gael eu cyflwyno mewn atodiadau neu dablau os yw'n ymddangos bod hynny'n helpu i'w hegluro.

4.16 Canllawiau cyffredinol yw'r canlynol, y bwriedir iddynt fod yn fan cychwyn i helpu swyddogion polisi i strwythuro a drafftio cyfarwyddiadau i'r Gwasanaethau Cyfreithiol ar ddrafftio offeryn statudol, ac fe allan nhw roi'r sail ar gyfer y cyfarfod cychwynnol. Mae hefyd yn werth ystyried y pwyntiau a nodir ym Mhennod 5, a fydd yn bwydo'r gwaith o gynllunio offeryn statudol yn fwy cyffredinol.

---

[8] O ran offerynnau statudol a osodir gerbron y Senedd, mae methu â chyflwyno offeryn yn y ddwy iaith yn sail dros dynnu sylw'r Senedd ato, gweler Rheol Sefydlog 21.2(ix).
[9] Fel y nodwyd o'r blaen, bydd cyfreithwyr Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol weithiau'n paratoi is-ddeddfwriaeth benodol: mae'r canllawiau ar gyfarwyddo a nodir yma hefyd yn berthnasol wrth roi cyfarwyddiadau i'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol.

*Rhagymadrodd*

4.17 Dylai cyfarwyddiadau roi trosolwg cyffredinol o'r hyn y bwriedir i'r offeryn statudol ei gyflawni a pham. Un enghraifft o hyn fyddai: *"Rydym am ddiwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 i'w gwneud yn ofynnol i bob adeilad newydd yng Nghymru a'r rhai sy'n mynd drwy waith adnewyddu mawr, gynnwys seilwaith ffisegol hyd at bwynt lle gall cysylltiad gael ei wneud â rhwydweithiau cyfathrebu electronig cyflym iawn. Rydym am weithredu Erthygl 8 o Gyfarwyddeb 2014/61/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 15 Mai 2014 ynghylch mesurau i leihau costau defnyddio rhwydweithiau cyfathrebu electronig cyflym."*

*Esboniwch y broblem – beth mae'r offeryn statudol yn ceisio'i newid?*

4.18 Pa gyfraith bresennol y mae angen ei diwygio neu ei dirymu er mwyn cyflawni'r amcan? Eglurwch beth yn y gyfraith gyfredol neu mewn unrhyw sefyllfa sy'n atal yr amcan rhag cael ei gyflawni neu unrhyw beth y mae angen i unrhyw system newydd gyd-fynd ag ef. (Fel rheol, fydd dim angen i'r cyfarwyddiadau roi disgrifiad manwl o'r gyfraith oni bai bod hyn yn angenrheidiol yn y cyd-destun – e.e. fe all fod angen hyn os oes ansicrwydd neu anghydfod ynghylch effaith y ddeddfwriaeth bresennol neu'r gyfraith achosion.)

*Cynigion manwl – beth mae'r Llywodraeth eisiau ei gyflawni?*

4.19 Disgrifiwch y sefyllfa a ddymunir yn y pen draw, gan gynnwys pethau fel:

a. **Diben** y ddeddfwriaeth arfaethedig – hynny yw, beth rydych chi'n bwriadu iddi ei gyflawni;
b. **Pwy** fydd yr offeryn statudol yn gofyn iddo wneud rhywbeth neu beidio â gwneud rhywbeth;
c. **Beth** yn union mae'r person hwnnw yn gorfod ei wneud neu beidio â'i wneud;
d. **Sut** mae'r person hwnnw i fod i wneud y peth hwnnw;
e. **Pa bryd** mae'n gorfod ei wneud neu beidio â'i wneud;
f. **Beth sy'n digwydd os** na fydd y person yn ei wneud (neu os bydd yn ei wneud pan fo'n ofynnol iddo beidio);
g. Unrhyw **eithriadau** i'r polisi cyffredinol
h. Natur unrhyw **apêl neu adolygiad**.

4.20 Mae enghreifftiau yn aml yn ddefnyddiol i egluro beth sydd ei eisiau.

4.21 Dywedwch a yw'r polisi wedi'i lunio drwy gyfeirio at yr hyn a gyflawnwyd drwy ddeddfwriaeth ar gyfer tiriogaeth arall, e.e. Lloegr neu'r Alban. Os ydyw, nodwch unrhyw wahaniaethau yn yr amcan ar gyfer Cymru. Sylwch nad yw'n ddefnyddiol i'r Gwasanaethau Cyfreithiol gael eu cyfarwyddo drwy ddarparu geiriad darpariaethau drafft. Y rheswm am hyn yw bod angen i'r Gwasanaethau Cyfreithiol ddeall beth yw'r broblem a sut mae'r swyddogion polisi yn bwriadu ei datrys. Os

yw'r swyddogion polisi yn awgrymu drafft, y cyfan y mae hynny'n ei ddweud wrth y Gwasanaethau Cyfreithiol yw'r hyn yr hoffen nhw ei weld ar bapur, ac ni fydd hynny o reidrwydd yn datrys y broblem. Bydd cyfarwyddiadau yn y ffurf hon yn arafu pethau am y bydd angen i'r Gwasanaethau Cyfreithiol ddadelfennu'r geiriad a awgrymwyd i ddod o hyd i'r effaith polisi a ddymunir.

*Pwerau cyfreithiol*

4.22 Enwch y pwerau y mae'r swyddogion polisi yn credu y bydd y Llywodraeth yn dibynnu arnynt i wneud yr offeryn statudol.

4.23 Esboniwch unrhyw ymholiadau sydd gan y swyddogion polisi o ran a all y pwerau hynny gwmpasu'r hyn sy'n angenrheidiol ai peidio.

*Hanfodion technegol*

4.24 Dywedwch a yw'r llywodraeth wedi cydymffurfio ag unrhyw rag-amodau ynglŷn ag arfer pŵer, e.e. ymgynghori.

4.25 Ydy'r offeryn statudol yn creu'r angen am unrhyw ddarpariaeth i symud yn esmwyth o'r sefyllfa bresennol i'r un newydd? Oes angen cadw unrhyw ddarpariaethau?

4.26 Pryd mae'r llywodraeth yn bwriadu i'r darpariaethau hyn ddod i rym – faint o amser sydd ei angen ar y rhai y mae'r darpariaethau'n effeithio arnynt i fod yn barod iddyn nhw ddod i rym?

4.27 Ydy goblygiadau'r polisi ar gyfer hawliau dynol wedi cael eu hystyried?

4.28 Ydy'r offeryn statudol yn gweithredu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau'r UE? Os felly, bydd angen i'r swyddogion fod yn fodlon pa rai o'r sefyllfaoedd canlynol sy'n gymwys:

   a. Bod yna bŵer presennol a roddir gan un o Ddeddfau Senedd y DU neu un o Ddeddfau Senedd Cymru i Weinidogion Cymru sy'n ddigon eang i weithredu'r rhwymedigaeth;
   b. Bod Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar orchymyn dynodi presennol a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 fel y'i cadwyd gan adran 1A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018; neu
   c. Bod adran 58B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Mae hyn yn rhoi hawl awtomatig i Weinidogion Cymru weithredu cyfraith yr UE o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (fel y'i cadwyd) ar faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o dan rai amgylchiadau.

4.29 Ydy'r cynnig yn dod o dan y Gyfarwyddeb Safonau Technegol neu'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau? (Gweler isod, Pennod 6.)

*Deunydd ategol*

4.30 Cynhwyswch ddolenni sy'n cysylltu ag unrhyw ddeunydd cefndir sy'n berthnasol i'r cynigion e.e.:

a. papurau mewnol (e.e. cyngor cyfreithiol blaenorol);
b. papurau gwyn, papurau gwyrdd a dogfennau ymgynghori eraill;
c. cynigion deddfwriaethol perthnasol neu gysylltiedig megis is-ddeddfwriaeth a luniwyd mewn awdurdodaethau eraill;
d. adroddiadau gan gyrff cyhoeddus (e.e. Comisiwn y Gyfraith).

4.31 Gallwch gael rhagor o gyngor ar sut i baratoi cyfarwyddiadau gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ogystal ag enghreifftiau o gyfarwyddiadau blaenorol. Ac, yn ychwanegol at y rhestr wirio uchod, mae *Datrysiadau deddfwriaethol cyffredin: canllaw i ymgodymu â materion polisi cylchol mewn deddfwriaeth* yn nodi materion y gall fod angen mynd i'r afael â nhw wrth ddatblygu ateb arfaethedig i rai problemau polisi penodol a rhoi cyfarwyddiadau yn eu cylch.

4.32 Bydd yr wybodaeth a gynhwysir yn y cyfarwyddiadau hefyd o gymorth at fwydo cynnwys y ddogfen ymgynghori a'r Memorandwm Esboniadol (gweler isod). Mater i'r swyddogion polisi yw penderfynu a ddylid ymgynghori yn gyntaf, ynteu llunio'r cyfarwyddiadau i ddechrau. Er hynny, dylai'r cyfarwyddiadau a'r papur ymgynghori ddarparu'r holl wybodaeth yn y pwyntiau bwled uchod. Dylai gosod yr wybodaeth hon yn gynnar arbed amser ac ymdrech i'r swyddogion polisi drwy weithredu fel templed cychwynnol.

4.33 Efallai y bydd angen rhagor o gyfarwyddiadau hefyd ar ôl ymgynghori os bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynnu bod y polisi'n cael ei ddiwygio (gweler paragraffau 4.38-4.40 isod).

**Ymgynghori a chyfranogi**

4.34 Dylai gwaith i ddatblygu is-ddeddfwriaeth gael ei seilio ar ymgysylltu ac ymgynghori priodol â'r rhanddeiliaid, ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael. At ei gilydd, dylai'r rhanddeiliaid gynnwys y bobl y disgwylir i'r polisi fod o fudd iddynt ac effeithio arnynt, y bobl a'r sefydliadau a fydd yn cyflawni'r polisi, a'r bobl a'r sefydliadau sydd â'r arbenigedd mwyaf yn y pwnc. Mae'n bwysig bod y swyddogion polisi'n sicrhau mai rhanddeiliaid sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth sy'n cyfranogi.

4.35 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau ar ymgynghori sydd i'w gweld ar y fewnrwyd ac mae Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru'n nodi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i ymgynghori ynghylch is-ddeddfwriaeth a'r hyn y dylai'r ymgynghori hwnnw ei gynnwys.

4.36 Mae yna benderfyniadau i'w gwneud ynghylch pryd i ymgynghori. Gallai fod yn briodol ymgynghori ar y bwriad polisi sydd i'w gyflawni

drwy’r is-ddeddfwriaeth cyn cwblhau’r cyfarwyddiadau a drafftio’r ddeddfwriaeth. O dan rai amgylchiadau, efallai y byddai’n well ymgynghori ar ddrafft o’r is-ddeddfwriaeth yn lle ymgynghori ar y polisi, neu yn wir yn ogystal â hynny.

4.37 Rhaid cyflwyno cyngor ysgrifenedig i’r Gweinidog yn gofyn iddo gytuno i’r math o ymgynghori, ac i hyd a dull(iau) yr ymgynghori – sut, pryd a ble. Bydd angen hefyd i’r Gweinidog gytuno ar y dull ymgynghori terfynol a’r deunyddiau cyn eu cyhoeddi. Dylai’r swyddogion gyfeirio at y canllawiau ymgynghori wrth baratoi cyngor ar hyn gan fod y rheiny’n amlinellu pa ffactorau y gall fod angen eu hystyried.

**Ar ôl ymgynghori**

4.38 Ar ôl ymgynghori, bydd angen i’r swyddogion polisi ddadansoddi’r ymatebion a’r mewnbwn a gafwyd, llunio adroddiad cryno yn amlygu unrhyw newidiadau yn y polisi sy’n deillio ohonynt (os yw’n gymwys) ac yn nodi sut y bydd y Llywodraeth yn ymateb i’r ymgynghoriad, gan gynnwys beth fydd y camau nesaf. Dylid cyhoeddi hwn cyn pen 12 wythnos ar ôl i’r ymgynghoriad gau neu (os nad yw hyn yn bosibl) dylid darparu diweddariad i nodi pa bryd y bydd hyn yn digwydd. Dylid cyflwyno cyngor ysgrifenedig i’r Gweinidog yn amlinellu’r ymatebion i’r ymgynghoriad ac yn gofyn iddo gytuno i gyhoeddi crynodeb o’r ymatebion, a’r ymatebion eu hunain lle bo’n ymarferol. Unwaith eto, gweler y canllawiau ymgynghori a nodwyd yn gynharach.

4.39 Os yw’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn dangos bod angen newidiadau yn y polisi neu’r ddeddfwriaeth ddrafft o ganlyniad iddo, dylid gofyn i’r Gweinidog gytuno i’r newidiadau hyn hefyd drwy gyflwyno cyngor.

4.40 Pan fydd y newidiadau wedi’u cytuno, dylid rhoi cyfarwyddiadau atodol i’r Gwasanaethau Cyfreithiol. Dylai’r rhain egluro’n glir y newidiadau y mae angen eu gwneud yn y cyfarwyddiadau a gyflwynwyd o’r blaen ynglŷn â’r ddeddfwriaeth ddrafft, a’r rhesymau dros y newidiadau.

**DRAFFTIO IS-DDEDDFWRIAETH**

**Offerynnau statudol (OS)**

4.41 Y Gwasanaethau Cyfreithiol (neu Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol lle bo’n briodol) sy’n llunio drafftiau o offerynnau statudol. Mae pa bryd y bydd hyn yn digwydd yn y broses yn dibynnu ar yr amserlen ar gyfer datblygu’r offeryn statudol (gweler Pennod 5 isod). Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd yn llunio drafft o’r Nodiadau Esboniadol a fydd yn cyd-fynd ag offeryn statudol.

4.42 Bydd disgwyl i’r swyddogion polisi ystyried y drafftiau hyn a chyflwyno sylwadau arnynt, sef drafftiau a ddylai gael eu hastudio’n ofalus i sicrhau eu bod yn gwneud yr union beth y mae ei eisiau. Os oes

unrhyw amheuaeth a yw'r drafft yn cyflawni'r polisi ai peidio, dylid codi'r amheuon hyn gyda'r cyfreithiwr sydd wedi'u drafftio. Ar y llaw arall, gall y Gwasanaethau Cyfreithiol ofyn am eglurhad ar bwyntiau yn y cyfarwyddiadau, neu bwyntiau a nodir yn ystod y broses ddrafftio. Dylai'r swyddogion ymateb yn brydlon i unrhyw gwestiynau, er mwyn sicrhau nad yw'r amserlen yn llithro. Mae arferion gwaith yn amrywio: gall y trafod ddigwydd mewn gohebiaeth â'r cyfreithiwr sydd wrthi'n drafftio a/neu mewn cyfarfodydd.

4.43 Pan fo materion yn codi sy'n gofyn am benderfyniad ar newidiadau o sylwedd yn y mewn polisi, dylai'r rhain gael eu cytuno gan y Gweinidogion a hynny drwy gyflwyno cyngor ysgrifenedig.

4.44 Fel arfer, mae offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, ac fel y nodir uchod, mae adran 5 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu bod i'r ddau destun iaith statws cyfartal i bob diben, pan fo'r offeryn statudol yn cael ei ddeddfu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4.45 Gall offerynnau statudol gael eu paratoi yn gyntaf yn y naill iaith neu'r llall. O'u paratoi yn Saesneg yn gyntaf, cânt eu cyfieithu gan yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol. Ym mhob achos, mae'r ddau destun yn cael eu gwirio o ran cyfwerthedd cyfreithiol yn y Gwasanaethau Cyfreithiol.[10]

4.46 Mae Rheol Sefydlog 15.4 y Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i offerynnau statudol gael eu gosod yn Gymraeg a Saesneg, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Y rhagdybiaeth ymarferol a ddylai gael ei harddel bob amser yw mai yn ddwyieithog y caiff offeryn statudol ei wneud. Os bydd y swyddogion polisi yn rhag-weld na fydd yn briodol nac yn ymarferol paratoi'r is-ddeddfwriaeth yn ddwyieithog, dylid trafod hyn yn y lle cyntaf gydag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant. Bydd angen i'r Gweinidogion gytuno ar yr ymagwedd hefyd. (Gweler hefyd Bennod 6 isod ar is-ddeddfwriaeth ar y cyd ac is-ddeddfwriaeth gyfansawdd, ym mharagraffau 6.2-6.18.)

**Is-ddeddfwriaeth arall**

4.47 Pan fo angen wedi'i nodi ac wedi'i gadarnhau gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, y swyddogion polisi sy'n gyfrifol am ddrafftio'r rhan fwyaf o fathau eraill o is-ddeddfwriaeth nad yw'n offeryn statudol. Bydd angen ymgysylltu â'r Gwasanaethau Cyfreithiol drwy gydol y broses ddrafftio i sicrhau bod cynnwys yr is-ddeddfwriaeth yn gywir ac o fewn pwerau Gweinidogion Cymru.

[10] Os Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol sy'n drafftio'r offeryn statudol, nhw hefyd fydd fel arfer yn gwirio cyfwerthedd yr offeryn statudol.

4.48 Mae gwybodaeth am y mathau o wybodaeth ysgrifenedig y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ei darparu yn Gymraeg ar gael ar y fewnrwyd. Os nad yw'r ddogfen wedi'i chynnwys yn y rhestr hon, dylai'r swyddogion polisi gysylltu â'u Cydlynydd Gwasanaethau Dwyieithog neu anfon ebost i flwch post Safonau Standards i gael cyngor.

## DRAFFTIO DOGFENNAU ATEGOL

4.49 Gall fod angen llunio nifer o ddogfennau eraill i ategu is-ddeddfwriaeth.

### Memorandwm Esboniadol

4.50 Mae Memorandwm Esboniadol yn ddogfen sy'n nodi diben gwneud y ddeddfwriaeth, effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth, y pwerau cyfreithiol sydd gan Weinidogion Cymru i'w gwneud, a chanlyniadau a deilliannau unrhyw ymgynghoriad.

4.51 Mae Rheol Sefydlog 27.1 yn ei gofyn bod Memorandwm Esboniadol yn cyd-fynd ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd. Mae Rheol Sefydlog 27.14 yn ei gwneud yn ofynnol bod Memorandwm Esboniadol yn cyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth arall ar ffurf adroddiad, canllawiau, cod ymarfer neu ddogfen arall y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd ac sy'n dod o dan un o weithdrefnau'r Senedd sydd â'r un effaith neu effaith debyg i'r weithdrefn gadarnhaol neu negyddol. Os nad ydych yn siŵr a oes angen Memorandwm Esboniadol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, cysylltwch ag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant i gael cyngor.

4.52 Mae gan Lywodraeth Cymru dempled cytûn ar gyfer Memoranda Esboniadol o'r fath, sydd ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant. Ceir rhagor o fanylion a chanllawiau ar hyn yn rhan 1 o'r templed.

4.53 Y swyddogion polisi sy'n arwain ar ddrafftio'r Memorandwm Esboniadol, gyda chymorth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Gall Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ac Arweinwyr Deddfwriaeth y Grŵp priodol roi cyngor hefyd ar y dull a'r cynnwys.

### Asesiad Effaith Rheoleiddiol

4.54 Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 27 gynnwys unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol (RIA) sydd wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r is-ddeddfwriaeth. Yn y cyd-destun hwn, mae asesiad effaith rheoliadol yn *"assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation"* (gweler adran 76(2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

4.55 Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn nodi unrhyw ofynion o ran cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol. Polisi Gweinidogion Cymru, fel y mae wedi'i nodi yn y Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth, yw cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Lle nad yw'r is-ddeddfwriaeth yn bodloni'r meini prawf yn adran 76, hynny yw nad yw'n cael ei gwneud gan offeryn statudol neu nad oes angen ei gosod gerbron y Senedd;
- Lle bo'r is-ddeddfwriaeth, yn syml, yn cynyddu ffi statudol yn unol â fformiwla a bennwyd ymlaen llaw (er enghraifft, cyfradd chwyddiant);
- Lle bo angen gwneud diwygiadau technegol neu ddiwygiadau ffeithiol er mwyn diweddaru rheoliadau ac ati nad ydynt yn effeithio'n fawr ar bolisi;
- Ar gyfer Gorchmynion Cychwyn sy'n rhoi deddfwriaeth sylfaenol neu Fesurau Cynulliad mewn grym gan gynnwys Gorchmynion o'r fath sydd hefyd yn arwain at wneud darpariaethau canlyniadol neu arbedion, etc.;
- Lle bo'r is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn destun gweithdrefn ychwanegol o dan Senedd y DU. Mewn achosion o'r fath, bydd yn rhaid penderfynu ar y cyd ag Adran berthnasol Llywodraeth y DU a fydd angen asesiad effaith rheoleiddiol;
- Lle bo angen rhoi'r is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn ei lle yn ddi-oed i ddelio ag argyfwng (er enghraifft, Clwy'r Traed a'r Genau neu Ffliw Adar);
- Lle bo is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn cael ei wneud wrth arfer y pwerau statudol hynny a ganiateir gan Ddeddf neu Fesur nad ydynt mewn unrhyw fodd yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru ynghylch sut y dylai'r pwerau hynny gael eu defnyddio.

4.56 Y swyddogion polisi sy'n gyfrifol am baratoi asesiadau effaith rheoleiddiol. Mae rhagor o gyngor ar baratoi asesiadau effaith rheoleiddiol ar gael yn y Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad. Er mai deddfwriaeth sylfaenol yw canolbwynt y canllawiau hynny, yr un yw'r dull cyffredinol o arfarnu opsiynau ac arfarnu cost a budd ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Mae'r economegwyr yn Nhrysorlys Cymru hefyd yn gallu rhoi cyngor ar baratoi asesiadau effaith rheoleiddiol. Dylai asesiad o gostau a buddion, neu'n ddelfrydol, asesiad effaith rheoleiddiol drafft, gael ei gyhoeddi fel arfer ochr yn

ochr ag unrhyw ymarfer ymgynghori er mwyn rhoi cyfle i'r rhanddeiliaid bwyso a mesur a bwydo'r dadansoddiad.

4.57 Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd dempled y cytunwyd arno ar gyfer asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Ceir rhagor o fanylion a chanllawiau ar hyn yn Rhan 2 o'r templed ar gyfer Memorandwm Esboniadol is-ddeddfwriaeth.

**Asesiadau effaith eraill**

4.58 Un rhan hanfodol o greu achos cynhwysfawr a chytbwys dros is-ddeddfwriaeth yw arfarnu'r effaith y mae'n debygol o'i chael – yn gadarnhaol ac yn negyddol – ar yr holl randdeiliaid posibl, gan gynnwys unigolion, busnesau, cyrff cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r system gyfiawnder. Yn ychwanegol, mae rhai asesiadau effaith yn orfodol i holl bolisïau Llywodraeth Cymru. Mae'r ffurflen Asesiad Effaith Integredig yn nodi pa asesiadau effaith y mae eu hangen bob amser a pha rai y gall fod eu hangen. Mae'r ffurflen a rhagor o ganllawiau ar gael drwy'r fewnrwyd.

4.59 Nid yw Rheolau Sefydlog y Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau effaith o'r fath gael eu cynnwys mewn Memoranda Esboniadol ar gyfer is-ddeddfwriaeth, ond mae'n arfer da i'r swyddogion polisi grynhoi unrhyw ganfyddiadau allweddol yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r gofynion cyhoeddi ar gyfer pob asesiad yn amrywio a dylid pennu'r rhain ar sail y canllawiau perthnasol. Pan fydd asesiad yn cael ei gyhoeddi'n electronig, efallai y bydd y swyddogion polisi am gynnwys dolen iddo o grynodeb o'r canfyddiadau allweddol yn y Memorandwm Esboniadol.

**Fersiynau dwyieithog o ddogfennau ategol**

4.60 Mae gwybodaeth am y mathau o wybodaeth ysgrifenedig y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ei darparu yn Gymraeg bob amser ar gael drwy'r fewnrwyd. Os nad yw dogfen ategol wedi'i chynnwys yn y rhestr hon, dylai'r swyddogion polisi gysylltu â'u Cydlynydd Gwasanaethau Dwyieithog neu anfon neges ebost i flwch post Safonau Standards i gael cyngor.

## GWNEUD YR IS-DDEDDFWRIAETH DERFYNOL NEU GYTUNO ARNI

**Offerynnau statudol**

4.61 Ar ôl cytuno ar fersiwn derfynol o'r offeryn statudol yn y ddwy iaith[11] gyda'r swyddogion polisi, bydd y cyfreithwyr yn ei rhoi i Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol.

[11] Oni bai bod yr offeryn statudol yn cael ei osod mewn un iaith yn unig (gweler paragraff 4.46 uchod).

4.62 Bydd angen i’r swyddogion polisi ddrafftio cyflwyniad o Gyngor i’r Gweinidog yn gofyn i’r Gweinidog roi ei gymeradwyaeth derfynol i’r offeryn statudol a’r Memorandwm Esboniadol. Os yw’r offeryn statudol yn dod o dan y weithdrefn negyddol, neu’n gorfod cael ei osod gerbron y Senedd yn unig, rhaid i’r cyngor ysgrifenedig a gyflwynir ofyn i’r Gweinidog:

a. cymeradwyo a llofnodi’r offeryn statudol terfynol (y cyfeirir ato fel “gwneud” yr offeryn) a’i osod gerbron y Senedd; a
b. cymeradwyo’r Memorandwm Esboniadol a chytuno iddo gael ei osod.

Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol fydd yn cydlynu’r gwaith o ddarparu unrhyw gyngor ysgrifenedig i’r Gweinidog a’r offeryn statudol i’r Gweinidog ei lofnodi. Ar ôl i’r offeryn statudol gael ei gytuno, ac os yw Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol wedi’i gofrestru (gweler paragraff 4.96 isod), bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant yn gosod yr offeryn statudol a’r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd. Ar yr adeg y mae’r offeryn statudol wedi'i wneud ac wedi’i gyhoeddi, mae wedi dod yn ddeddf gwlad.

4.63 Os yw’r offeryn statudol yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, rhaid i’r cyngor ofyn i’r Gweinidog gymeradwyo’r offeryn statudol drafft a’r Memorandwm Esboniadol a chytuno i’w gosod gerbron y Senedd i’w cymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar ddyddiad y cytunir arno.

4.64 Pan fydd y Gweinidog wedi cytuno ar y cyngor:

a. Bydd Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol yn rhoi’r dogfennau i Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant a fydd yn eu gosod ar ffurf ddrafft gerbron y Senedd;
b. ar ôl eu gosod, bydd y tîm polisi yn paratoi brîff ar gyfer y ddadl – gweler paragraffau 4.87-4.88 isod.

4.65 Os caiff yr offeryn statudol drafft ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn, mae’n rhaid wedyn iddo gael ei wneud. Cyflwynir cofnod arall o gyngor gan y swyddogion polisi i’r Gweinidog yn darparu ar gyfer ei lofnodi. Bydd Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol yn cydlynu gwaith i ddarparu’r offeryn statudol, ac yn trefnu iddo gael ei gofrestru ar ôl cael ei wneud.

4.66 Os nad yw’n ofynnol ond i’r offeryn statudol gael ei osod gerbron y Senedd, mae’r broses yn debyg i’r weithdrefn negyddol. Bydd angen gosod Memorandwm Esboniadol ochr yn ochr â’r offeryn statudol.

4.67 Os nad yw’r offeryn statudol yn dod o dan unrhyw weithdrefn, mae’r broses unwaith eto yn debyg i’r un ar gyfer y weithdrefn negyddol (er nad oes gan yr offeryn statudol Femorandwm Esboniadol ac er nad yw’n cael ei osod gerbron y Senedd). Os ‘gorchymyn cychwyn heb

weithdrefn’ yw’r offeryn statudol, bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant yn hysbysu’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad fel eu bod yn ymwybodol pryd y bydd darpariaethau deddfwriaeth sylfaenol yn dod i rym (gweler paragraff 3.40 uchod).

**Is-ddeddfwriaeth arall**

4.68 Ar gyfer mathau eraill o is-ddeddfwriaeth, mae’r broses yn debyg, ond nid yw’r Gweinidog fel arfer yn “gwneud” y ddeddfwriaeth. Mae’r cyngor ysgrifenedig a gyflwynir yn gofyn i’r Gweinidog gymeradwyo a chyhoeddi’r ddogfen, a’r Memorandwm Esboniadol os oes angen un, a chytuno i Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant osod y ddogfen neu gytuno iddi gael ei chyhoeddi a’i dosbarthu.

4.69 Os oes rhaid i’r is-ddeddfwriaeth gael ei gosod gerbron y Senedd **a** bod un o weithdrefnau’r Senedd ynghlwm â hi, yna Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant sy’n gyfrifol am ei gosod hi a’r Memorandwm Esboniadol. Os yw’n gorfod cael ei gosod yn unig, Tîm Busnes y Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn (rhan o Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a’r Pwyllgorau yn Is-adran y Cabinet) sy’n gyfrifol am ei gosod.

4.70 Nid yw Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol yn ymwneud fel arfer ag is-ddeddfwriaeth o’r fath. Gan hynny, y swyddogion polisi sy’n gyfrifol am sicrhau y cytunir arni a’i bod yn cael ei rhoi i Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant neu Dîm Busnes y Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn i’w gosod, neu ei bod yn cael ei chyhoeddi gan y grŵp perthnasol, yn unol â’r amserlen y cytunwyd arni.

**GWAITH CRAFFU’R SENEDD**

4.71 Mae lefel y gwaith craffu ar eitem o is-ddeddfwriaeth yn y Senedd yn dibynnu ar y weithdrefn sy’n berthnasol iddi, ei natur a’i chynnwys.

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

4.72 Fel y nodwyd o’r blaen, mae’n ofynnol i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar bob offeryn statudol a osodir gerbron y Senedd ac mae’n cael penderfynu cyflwyno adroddiad ar eitemau eraill o is-ddeddfwriaeth. Mae’r adroddiadau’n nodi a ddylai’r Senedd roi sylw arbennig i’r eitem am nifer o resymau (y cyfeirir atynt weithiau fel “pwyntiau adrodd”). Mae’r rhain wedi’u nodi yn Rheolau Sefydlog 21.1 a 21.2 ac maent yn ymrannu’n ddau gategori:

- Technegol: er enghraifft drafftio diffygiol, deddfwriaeth sydd heb ei gwneud yn Gymraeg a Saesneg, deddfwriaeth sy’n effeithiol yn ôl-syllol;

- Rhagoriaethau: er enghraifft, os yw o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol, neu os yw'r Pwyllgor yn credu ei bod yn rhoi deddfwriaeth yr UE ar waith mewn modd amhriodol.

4.73 Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ystyried y ddeddfwriaeth a'r Memorandwm Esboniadol, gan gynnwys yr asesiad effaith rheoleiddiol pan ddarparwyd un. Y broses arferol yw bod swyddogion Comisiwn y Senedd yn helpu'r Pwyllgor naill ai i gadarnhau nad oes dim i adrodd arno ("adroddiad clir") neu i ddarparu drafft o'r adroddiad i'w ystyried gan aelodau'r Pwyllgor mewn sesiwn gyhoeddus. Anfonir y rhain at y cyfreithwyr a fu wrthi'n drafftio ac at Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant.

4.74 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn comisiynu ymateb drafft gan y swyddogion polisi, a ddylai gael ei ddrafftio'n brydlon a'i glirio gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd yr Uned yn ei gyflwyno i'r Gweinidog cyfrifol i'w glirio ac yn trefnu cyfieithu'r ymateb. Ar ôl i'r Gweinidog ei glirio, mae'r Uned yn cyfleu'r ymateb i'r Pwyllgor.

4.75 Y nod yw darparu'r ymateb er mwyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghyd â'r adroddiad drafft. O ganlyniad, dylai'r swyddogion sicrhau bod trefniadau ar waith i baratoi ymateb, gan y gall yr amserlenni ar gyfer ei ddrafftio, ei glirio a'i gyfieithu fod yn dynn iawn, o gofio mai 20 diwrnod calendr sydd gan y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn nodi'r terfynau amser wrth gomisiynu'r ymateb.

4.76 Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ystyried yr adroddiad drafft ar bob eitem o ddeddfwriaeth yn ystod un o'i gyfarfodydd wythnosol, p'un a yw'r adroddiad hwnnw'n glir ynteu'n cynnwys pwyntiau adrodd. Gall yr Aelodau nodi'r adroddiad yn unig neu drafod unrhyw faterion penodol sy'n peri pryder. Maent wedyn yn cytuno ar yr adroddiadau, a osodir gerbron y Senedd, ac unrhyw gamau eraill y maent yn dymuno'u cymryd, megis codi materion pellach yng ngoleuni ymateb y Llywodraeth.

**Pwyllgorau eraill**

4.77 Nid yw'r pwyllgorau eraill a gaiff ystyried is-ddeddfwriaeth o dan yr un rhwymedigaethau i gyflwyno adroddiad ar faterion penodol. Yn ystod eu hystyriaethau nhw, caiff y pwyllgor(au) ddewis gofyn am ragor o wybodaeth, naill ai'n anffurfiol neu drwy ohebu'n ffurfiol â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am yr offeryn statudol neu'r is-ddeddfwriaeth. Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn cysylltu â'r pwyllgor(au) ac yn comisiynu ymateb gan y swyddogion polisi. Ond, mae'r pwyllgorau'n dod o dan yr un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 20 diwrnod, â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r

Cyfansoddiad. Unwaith eto, felly, rhaid i ymatebion i geisiadau, llythyrau neu adroddiadau drafft gael eu trin yn brydlon.

4.78 O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd Pwyllgor am wahodd y Gweinidog i'r Pwyllgor i drafod yr eitem, ac os felly byddai Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn rhoi rhagor o gyngor, yn cydlynu â'r Pwyllgor a'r Swyddfa Breifat ar y trefniadau ac yn comisiynu deunydd briffio i'r ymddangosiad. O gofio'r terfynau amser ar gyfer adroddiadau, gall fod angen ymddangosiad ar fyr rybudd. Gall fod yn ddefnyddiol nodi a allai'r eitem is-ddeddfwriaeth arwain at bosibilrwydd o ymddangosiad gerbron Pwyllgor, a chytuno ar ddull o drafod gyda'r Gweinidog ymlaen llaw. Gall hyn olygu rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Pwyllgor am y dyddiad y bwriedir gosod y ddeddfwriaeth, gan ganiatáu mwy o amser i wneud trefniadau. Un enghraifft o is-ddeddfwriaeth y gallai fod angen i'r Pwyllgor edrych arni fyddai set allweddol o reoliadau i weithredu Deddf newydd, a'r rheiny'n rhoi manylion a fu o ddiddordeb arwyddocaol yn ystod y gwaith craffu ar y Bil.

**Diddordeb cyffredinol gan Bwyllgorau**

4.79 Yn fwy cyffredinol, gall Pwyllgorau gymryd diddordeb yn natblygiad eitemau penodol o is-ddeddfwriaeth, er enghraifft, os bydd Gweinidog yn cyhoeddi ymgynghoriad ar god ymarfer drafft, ac fe allent geisio ymgysylltu â'r Gweinidog. Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant fydd yn cydlynu'r broses hon.

**Gwaith craffu'r Cyfarfod Llawn**

4.80 Rhaid i rywfaint o is-ddeddfwriaeth gael ei ystyried gan y Senedd hefyd mewn Cyfarfod Llawn. Nodir y ddwy weithdrefn fwyaf cyffredin isod.

4.81 I helpu i baratoi ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn, dylai'r swyddogion ystyried unrhyw bwyntiau a godwyd mewn adroddiadau gan bwyllgorau neu faterion allweddol yn ymwneud â'r pŵer galluogi a fu'n rhan o'r gwaith craffu ar y rhiant-Ddeddf.

**Y weithdrefn gadarnhaol**

4.82 Fel rheol, mae'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y cynnig i gymeradwyo'r offeryn statudol yn cael ei chynnal 21 diwrnod ar ôl ei osod, ac mae'n gorffen gyda phleidlais ar y cynnig. Fel arfer, neilltuir 15 munud i'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn, er y gall hyn amrywio oherwydd natur yr offeryn statudol. Gall fod yn hirach os yw'r eitem o ddiddordeb cyhoeddus penodol, neu os yw'n offeryn hirfaith sy'n ymdrin â llawer o fanylion.

4.83 Pan fo nifer o offerynnau statudol cysylltiedig wedi'u gosod gyda'i gilydd, gall y Senedd gytuno i'w trafod mewn un ddadl, ond bydd pleidleisiau ar wahân o hyd i gymeradwyo pob offeryn statudol.

4.84 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn cydlynu â'r swyddogion polisi i bennu faint o amser y bydd ei angen ar gyfer y ddadl ac yn trefnu slot ar y dyddiad a ffefrir, lle bo modd.

4.85 Mae'r ddadl yn dilyn y fformat arferol ar gyfer dadl ar gynnig. Y Gweinidog sy'n agor drwy symud y cynnig a gwneud sylwadau agoriadol, ac yna ceir cyfraniadau gan Aelodau eraill. Wedyn, bydd y Gweinidog yn cloi'r ddadl, gan ymateb i unrhyw bwyntiau a godwyd os yw'n dewis gwneud.

4.86 Weithiau, does yr un Aelod o'r Senedd yn dymuno trafod yr offeryn statudol, ac felly bydd yn symud yn syth i bleidlais ar ôl i'r Gweinidog symud y cynnig a gwneud unrhyw sylwadau agoriadol a ddymunir.

4.87 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn comisiynu'r swyddogion polisi i baratoi deunydd briffio, areithiau agor a chau a llinellau i'r Gweinidog eu defnyddio yn ystod y ddadl. Byddant yn rhoi gwybod i'r swyddogion polisi faint o amser sydd gan y Gweinidog i wneud sylwadau agor a chloi, gan fod hyn yn amrywio yn ôl yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer y ddadl. Er enghraifft, os caiff dadl ei threfnu ar gyfer 15 munud, bydd gan y Gweinidog gyfanswm o bedair munud i'w rhannu rhwng y sylwadau agoriadol a'r sylwadau cloi.

4.88 Dylai'r swyddogion polisi gydlynu â'r Swyddfa Breifat a'r cynghorwr arbennig i benderfynu ar y lefel diddordeb sy'n debygol yn y ddadl ac ar ofynion y Gweinidog o ran deunydd briffio.

4.89 Bydd y drefn hon yn gymwys mewn modd tebyg i is-ddeddfwriaeth sy'n dod o dan weithdrefn "uwch-gadarnhaol" neu weithdrefn lle mae'r rhiant-Ddeddf yn pennu amserlenni gwahanol ar gyfer cymeradwyaeth.

**Y weithdrefn negyddol**

4.90 Os caiff cynnig dirymu ei gyflwyno, bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant yn hysbysu'r swyddogion polisi cyn gynted ag y cânt wybod ac yn rhoi cyngor ar y broses. Fydd dyddiad trafod y cynnig ddim yn hysbys nes bod y Pwyllgor Busnes yn cytuno arno, ond fe'i cynhelir yn ystod amser heblaw amser y Llywodraeth. Bydd modd adnabod y dyddiad olaf y gallai'r pwnc gael ei drafod drwy weithio ar sail y dyddiad y daw'r cyfnod dirymu i ben.

4.91 Fel arfer, neilltuir 15 munud i'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn, er y gall hyn amrywio oherwydd natur yr offeryn statudol. Gall fod yn hirach os yw'r eitem o ddiddordeb cyhoeddus penodol, neu os yw'n offeryn hirfaith sy'n ymdrin â llawer o fanylion

4.92 Mae’r ddadl yn dilyn y fformat arferol ar gyfer dadl ar gynnig Anllywodraethol. Yr Aelod a gyflwynodd y cynnig sy’n agor drwy symud y cynnig a gwneud sylwadau agoriadol, ac yna ceir cyfraniadau gan Aelodau eraill. Fel arfer, mae’r Gweinidog yn cael ei alw fel y siaradwr olaf ond un ac mae’n ymateb fel y gwêl yn dda i unrhyw bwyntiau a godwyd. Yr Aelod a gyflwynodd y cynnig sy’n cau’r ddadl.

4.93 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a’i Llywodraethiant yn comisiynu’r swyddogion polisi i baratoi deunydd briffio, areithiau a llinellau i’r Gweinidog eu defnyddio yn ystod y ddadl. Dylai’r swyddogion polisi gydlynu â’r Swyddfa Breifat a’r cynghorwr arbennig i benderfynu ar ofynion y Gweinidog o ran deunydd briffio ac unrhyw wybodaeth ychwanegol y gallant ei darparu ynghylch y rheswm pam mae’r Aelod yn ceisio dirymu’r ddeddfwriaeth.

4.94 Does dim modd diwygio’r cynnig.

4.95 Bydd y drefn hon yn gymwys mewn modd tebyg i is-ddeddfwriaeth sy’n dod o dan “uwch-weithdrefn” negyddol neu weithdrefn lle mae’r rhiant-Ddeddf yn pennu amserlenni gwahanol ar gyfer dirymu.

## ARGRAFFU A CHYHOEDDI

### Offerynnau statudol

4.96 Fel yr esboniwyd ym Mhennod 3, paragraff 3.11 uchod, mae offerynnau statudol yn dod o dan ofynion statudol ynghylch eu hargraffu a’u cyhoeddi. O ganlyniad, pan gaiff ei wneud, mae pob offeryn statudol yn cael ei gofrestru gan Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol gyda’r Archifau Gwladol sy’n dyrannu rhif unigryw yn y gyfres offerynnau statudol. Mae’n ofynnol i Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol ganiatáu hyd at 48 awr at ddibenion cofrestru a rhaid i offeryn statudol Cymreig gael ei gofrestru a’i rifo cyn y gellir ei osod gerbron y Senedd a’i gyhoeddi. Rhaid felly i Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol fod yn ymwybodol o’r bwriad i ddatblygu ac amserlennu offeryn statudol ar y cyfle cyntaf er mwyn sicrhau y caniateir digon o amser ar gyfer y broses hon. Caiff y mwyafrif o offerynnau statudol eu hargraffu a’u cyhoeddi ar [www.legislation.gov.uk](http://www.legislation.gov.uk) (ond gweler Pennod 6, paragraff 6.26 ymlaen isod i weld rhai eithriadau).

4.97 Bydd yr holl offerynnau statudol sy’n cael eu gosod gerbron y Senedd hefyd yn cael eu cyhoeddi yn yr adran dogfennau a osodwyd ar wefan y Senedd. Comisiwn y Senedd sy’n ymdrin â hyn.

4.98 Caiff y swyddogion polisi hefyd benderfynu cyhoeddi’r offeryn statudol ar eu maes pwnc nhw ar wefan Llywodraeth Cymru, os bernir bod hynny’n ddefnyddiol i’r rhanddeiliaid a’i bod yn helpu i roi’r cyd-destun deddfwriaethol llawn mewn maes polisi.

**Is-ddeddfwriaeth arall**

4.99 Gan nad offerynnau statudol mo'r eitemau hyn, nid ydynt yn dod o dan yr un gofynion ynglŷn ag argraffu a chyhoeddi yn Neddf Offerynnau Statudol 1946. Er hynny, rhaid trefnu eu bod ar gael yn gyhoeddus o hyd fel y gall unrhyw un ganfod y gyfraith sy'n berthnasol ar hyn o bryd.

4.100 Bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid ei gosod gerbron y Senedd yn cael ei chyhoeddi yn yr adran o wefan y Senedd ar gyfer dogfennau a osodwyd.

4.101 Dylai is-ddeddfwriaeth nad yw'n cael ei gwneud drwy offeryn statudol, megis Cyfarwyddydau neu Gynlluniau, gael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, i sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd.

4.102 Cyn cyhoeddi, mae angen i'r swyddogion polisi ofyn i Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol ddarparu "Rhif heb fod yn rhif OS". Pan fydd hwn wedi'i sicrhau, mae modd gwneud cais am gyhoeddi'r is-ddeddfwriaeth drwy gysylltu â digital@gov.wales. Bydd angen i'r swyddogion polisi roi eitem ragarweiniol fer o destun, er enghraifft:

> *Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 6 o Fesur Tai (Cymru) 2011, yn dyroddi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.*
>
> neu:
>
> *Mae'r cynllun hwn yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau ar ffurf cymhellion i unigolion cymwys ddilyn cwrs ôl-raddedig hyfforddiant athrawon yng Nghymru mewn pynciau penodedig.*

4.103 Y Grwpiau Polisi sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob eitem o is-ddeddfwriaeth ar gael i'r cyhoedd cyhyd ag y bo'n dal mewn grym neu'n gymwys, ni waeth pa mor bell yn ôl y cafodd ei chymeradwyo neu gan ba Lywodraeth neu Weinidog. Rhaid i allu'r cyhoedd i gael mynediad i is-ddeddfwriaeth o'r fath gael ei ystyried pryd bynnag y caiff cyhoeddiadau'r Llywodraeth eu hasesu i weld a ydynt yn briodol i'w harchifo.

4.104 Ar ben hynny, dylid ystyried cynnwys gwybodaeth am yr is-ddeddfwriaeth (ac efallai yr is-ddeddfwriaeth ei hun) ar wefan Cyfraith Cymru/Law Wales. Gall Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol roi rhagor o wybodaeth am wneud y gyfraith yn hygyrch i'r cyhoedd fel hyn.

# PENNOD 5 – CWESTIYNAU I'W HYSTYRIED WRTH GYNLLUNIO IS-DDEDDFWRIAETH

**Gan adeiladu ar yr wybodaeth a drafodwyd yn y penodau blaenorol, mae'r bennod hon yn trafod rhai o'r cwestiynau allweddol i'w hystyried pan fydd swyddogion yn cynllunio gwaith i ddatblygu a chyflawni is-ddeddfwriaeth.**

5.1 Pan fo'r swyddogion polisi wedi cael gwybod y gall fod angen gwneud is-ddeddfwriaeth i droi bwriad polisi Gweinidog yn ddeddf gwlad, mae angen iddynt baratoi cynllun ar gyfer y darn hwn o waith. Mae'n hanfodol bod y swyddogion polisi yn trafod eu hymagwedd gychwynnol gyda'u cyfreithwyr, Arweinwyr Deddfwriaeth y Grwpiau priodol, Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol, Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant a'r Gwasanaeth Cyfieithu gan fod gan bob un o'r rhain rolau allweddol i'w chwarae. Mae angen i'r swyddogion polisi wirio bod modd cyflawni eu cynllun a gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol, fel trefnu slotiau yn y Cyfarfod Llawn.

5.2 Mae'r adran ganlynol yn ymdrin â rhai o'r pethau y bydd angen i'r swyddogion polisi eu hystyried er mwyn llunio amserlen bwrpasol a manwl wedi'i theilwra fesul cam. Mae'n bosibl na fydd yr holl wybodaeth hon gan y swyddogion polisi ar hyn o bryd, ond fe fydd yr wybodaeth sydd ganddyn nhw yn helpu i ddechrau drafftio amserlen ystyrlon. Mae profformâu ar gael gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant i helpu i lunio cynllun ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth. Gall Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol neu Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant gynghori ar sut i ddefnyddio'r profformâu hyn.

### Beth yw teitl gweithio'r is-ddeddfwriaeth?

5.3 Efallai y bydd y swyddogion polisi wedi cael trafodaethau gyda'r cyfreithwyr ynghylch teitl posibl. Ar yr adeg hon, teitl ar ffurf drafft yn unig fydd hwn, ond fe fydd yn helpu i adnabod y darn penodol o ddeddfwriaeth yn hawdd, er enghraifft wrth archebu slotiau mewn Cyfarfodydd Llawn ar gyfer offerynnau statudol sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

### Beth yw effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth?

5.4 Dyma amlinelliad bras o'r hyn a fwriedir a bydd yn helpu i bennu nifer o ffactorau a fydd yn dylanwadu ar yr amserlen, megis:

- yr amser y mae ei angen i ddatblygu'r polisi;
- hyd y cyfnod ymgynghori y mae'n debygol y bydd ei angen;
- faint o amser i'w ganiatáu ar gyfer asesu ar ôl yr ymgynghoriad;

- a oes angen i’r cynllun gynnwys paratoi asesiad effaith rheoleiddiol;
- maint posibl yr is-ddeddfwriaeth;
- yr amser y mae ei angen i ddrafftio a chyfieithu’r is-ddeddfwriaeth a’r dogfennau ategol.

**Beth yw’r pwerau galluogi a’r weithdrefn a argymhellir?**

5.5. Dylai’r swyddogion polisi nodi’r pwerau sy’n galluogi’r Gweinidog i wneud yr is-ddeddfwriaeth a’r ffaith ei bod wedi dod i rym yn ogystal â’r weithdrefn debygol a fydd yn ofynnol er mwyn ei gwneud. Fel arfer, y Ddeddf alluogi fydd yn pennu’r weithdrefn,[12] sef rhywbeth y bydd y cyfreithwyr yn gallu ei chadarnhau.

5.6. Bydd y weithdrefn yn cael effaith fawr ar yr amserlen, yn enwedig pa bryd y gall y ddeddfwriaeth gael ei gwneud. Er enghraifft, dim ond pan fo’r Senedd yn eistedd y gellir cymeradwyo unrhyw offeryn statudol sy’n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

5.7. Yn achos unrhyw offeryn statudol sy’n dod o dan y weithdrefn negyddol, dylid ystyried y risg y caiff cynnig dirymu ei gyflwyno wrth ichi benderfynu pa bryd i osod yr offeryn a pha bryd y daw i rym. Mae’r ffactorau y mae angen eu hystyried yn cynnwys:

- a yw’r is-ddeddfwriaeth yn ddadleuol ei natur;
- a fydd Aelod am gael dadl ar agwedd benodol; a
- pha mor debygol yw hi y bydd cynnig dirymu yn llwyddiannus, os caiff ei gyflwyno.

5.8. Wrth ystyried y pŵer galluogi, dylai’r swyddogion polisi hefyd ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y broses o graffu ar y Bil, er enghraifft ym Mhennod 5 o’r Memorandwm Esboniadol ar bwerau dirprwyedig ac unrhyw Ddatganiad o Fwriad y Polisi neu is-ddeddfwriaeth ddrafft.

**Beth yw’r dyddiad arfaethedig ar gyfer dod i rym?**

5.9. Dyma pryd y mae ar Lywodraeth Cymru angen neu eisiau i’r polisi ddod i rym. Bydd hyn yn effeithio ar faint o amser i’w ddyrannu i bob tasg a faint o lithriant y gellir ei gynnwys yn yr amserlen – neu pa mor brin yw’r amser sydd ar gael.

5.10. Dylai’r swyddogion polisi ystyried hefyd a oes unrhyw oblygiadau (e.e. yn gyfreithlon a/neu yn wleidyddol) os na fydd y dyddiad dod i rym yn cael ei fodloni. Er enghraifft, a oes rhaid i’r ddeddfwriaeth fod ar waith erbyn amser penodol i osgoi anawsterau cyfreithiol, neu a yw’r

[12] Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, a pharagraff 3.18 uchod a pharagraffau 6.41-6.44 isod.

Gweinidog wedi rhoi ymrwymiad cyhoeddus y bydd rhywbeth yn cael ei wneud erbyn dyddiad penodol?

5.11. Yn achos unrhyw offeryn statudol sy'n dod o dan y weithdrefn negyddol, dylai'r swyddogion polisi ystyried effaith dirymu'r offeryn statudol ar ôl iddo ddod i rym. Pan fydd digon o amser yn yr amserlen gynllunio, gall fod yn ddoeth, o dan rai amgylchiadau, caniatáu i'r cyfnod dirymu llawn ddod i ben cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, yn hytrach na chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn unig.

**Oes agweddau penodol ar y ddeddfwriaeth a allai effeithio ar ei hamseriad?**

5.12. Weithiau mae nodweddion penodol i'r ddeddfwriaeth a fydd yn pennu'r amserlenni yn y cynlluniau. Gallai'r rhain ddeillio o'r canlynol:

- natur y ddeddfwriaeth, er enghraifft ei bod yn dod o dan ofynion Cyfarwyddeb Gwasanaethau'r UE;
- faint o amser sydd ar gael i wneud y ddeddfwriaeth, a all gynnwys yr angen i ddeddfu ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd ar adeg benodedig;
- gofynion yn y rhiant-Ddeddf, megis cyfnod gosod estynedig o 60 diwrnod calendr cyn dod i rym;
- cyfyngiadau amser sydd wedi'u gosod ar y pwerau, megis cymalau machlud yn y rhiant-Ddeddf sy'n peri bod pwerau galluogi'n dod i ben.

5.13. Gweler hefyd Bennod 6, paragraff 6.33 ymlaen, i gael rhagor ar nifer o nodweddion o'r fath.

**Oes yna fwriad i ymgynghori?**

5.14. Os yw'r swyddogion polisi yn bwriadu neu'n gorfod ymgynghori, rhaid iddynt ystyried yr opsiynau ynglŷn â'r dull ymgynghori a hyd y cyfnod ymgynghori er mwyn nodi'r gwahaniaethau o ran amseru pob dull, ac amserlennu gwahanol opsiynau i'w hystyried.

5.15. Arfer da yw cynnwys yn yr ymgynghoriad unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol drafft y bwriedir iddo gyd-fynd â'r offeryn statudol, ond os na fyddwch yn gwneud hyn, fe ddylai'r ymgynghoriad roi syniad o'r costau a'r manteision sydd wedi'u hamcangyfrif. Gallwch ddefnyddio'r ymgynghoriad hefyd i gasglu gwybodaeth i gwblhau asesiad effaith rheoleiddiol, er enghraifft, drwy ofyn faint mae'n ei gostio i sefydliad weithredu'r gyfraith gyfredol a faint maen nhw'n amcangyfrif y byddai'n ei gostio i roi'r cynigion ar waith. Arfer da hefyd yw ymgynghori ynghylch asesiadau effaith drafft perthnasol eraill at yr un diben.

5.16. Hefyd, efallai y bydd gan y swyddogion polisi ffactorau penodol i'w hystyried ynghylch amseru'r ymgynghoriad. Er enghraifft, os yw'r is-

ddeddfwriaeth arfaethedig yn ymwneud ag ysgolion, efallai na fydd yn briodol ymgynghori dros wyliau'r haf. Gall y swyddogion polisi hefyd ystyried gwyliau sydd ar y gweill neu gyfnodau amser arwyddocaol ar gyfer gwahanol grefyddau, ac ymgynghoriadau eraill sydd ar eu hanner. Rhaid iddyn nhw hefyd ystyried â phwy y dylen nhw ymgynghori a sut (er enghraifft, os yw'r is-ddeddfwriaeth yn effeithio ar blant, efallai y bydd angen meddwl am ddarparu fersiynau o'r ymgynghoriad sy'n hawdd i'w darllen). Bydd angen i' swyddogion polisi drafod y ffactorau hyn gyda'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

5.17. Gweler hefyd Bennod 4 uchod, paragraffau 4.34-4.37, a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ymgynghori, sydd ar gael drwy'r fewnrwyd.

**Pa mor gymhleth yw'r polisi a'r is-ddeddfwriaeth?**

5.18. Gall yr union amserlenni ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth ddibynnu ar gymhlethdod y polisi, a'r lefel debygol o ddiddordeb cyhoeddus ynddo. Efallai y bydd angen i'r swyddogion polisi gynnwys amser ychwanegol ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu cyn gwneud yr is-ddeddfwriaeth a/neu cyn iddi ddod i mewn, er mwyn dadansoddi nifer arwyddocaol o ymatebion i'r ymgynghoriad, neu i baratoi papur briffio manwl i gefnogi'r Gweinidog mewn dadl.

**Ydy'r is-ddeddfwriaeth yn rhan o becyn ehangach?**

5.19. Weithiau mae angen nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth i gyflawni newid polisi neu i weithredu Deddf, er enghraifft nifer o offerynnau statudol, rhai'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol a rhai'n dod o dan y weithdrefn negyddol, ynghyd â Chod Ymarfer y mae'n rhaid ei osod gerbron y Senedd.

5.20. Weithiau mae'n rhaid i ddarpariaethau mewn Deddf gael eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn cyn bod modd gwneud yr is-ddeddfwriaeth. Mewn achosion o'r fath, byddai'n syniad da cynllunio'r eitemau hyn fel pecyn er mwyn sicrhau bod eu hamseriadau unigol yn cael eu cyd-drefnu a'u cysoni'n briodol. Pan fydd nifer o swyddogion yn gyfrifol am y rhain, byddai'n ddoeth sicrhau bod un unigolyn yn goruchwylio'r gwaith cynllunio a chyflawni yn gyffredinol.

5.21. Wrth gynllunio pecyn o is-ddeddfwriaeth, dylai'r swyddogion polisi ystyried nifer o ffactorau eraill, fel:

- a oes adnoddau digonol i helpu i gyflawni'r pecyn, er enghraifft, efallai y bydd gan dîm y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol nifer o ofynion eraill sydd â blaenoriaeth uwch;
- effaith pecyn o is-ddeddfwriaeth ar y rhanddeiliaid, megis:

    - os ydych chi wrthi'n gweithredu Deddf, a fyddai'n well ei dwyn i rym fesul cam, gan gyflwyno nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth, ynteu mewn un swp;
    - pa newidiadau eraill sy'n mynd rhagddynt yn y sector – a beth yw effaith gronnol y newidiadau polisi;
- a yw'r pecyn yn gofyn am lawer o fewnbwn gan y Gweinidog, e.e. sawl dadl yn y Cyfarfod Llawn, gan gymryd i ystyriaeth beth arall y bydd yn ymdrin ag ef ar y pryd – er enghraifft, mynd â Bil drwy'r Senedd.

# PENNOD 6 – MATHAU ARBENNIG O IS-DDEDDFWRIAETH A MATERION A ALLAI GODI

| |
|---|
| **Mae'r bennod hon yn amlygu mathau penodol o is-ddeddfwriaeth sydd â materion penodol yn gysylltiedig â nhw, neu amgylchiadau anarferol a allai godi wrth ddatblygu rhai eitemau is-ddeddfwriaeth. Dylech ei darllen ar y cyd â'r penodau blaenorol, a gallwch ofyn am ragor o gyngor gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant a'r Gwasanaethau Cyfreithiol.** |

## MATHAU ARBENNIG

### Is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru yn unig

6.1 Nid yw'r canllawiau yn y Llawlyfr hwn yn berthnasol i ddeddfwriaeth o'r fath. Gall y Tîm Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth Seneddol roi rhagor o gyngor a chymorth.

### Is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ar y cyd â Llywodraeth y DU a/neu weinyddiaethau datganoledig eraill

6.2 Mae is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud neu ei chyhoeddi ar brydiau gan Weinidogion Cymru ar y cyd ag un neu ragor o Weinidogion Llywodraeth y DU neu weinyddiaeth ddatganoledig arall. Mae dau gategori gwahanol – deddfwriaeth ar y cyd a deddfwriaeth gyfansawdd, a esbonnir isod – ac mae gan y ddau faterion penodol i'w hystyried drwy'r cyfnodau cynllunio a datblygu ar ben y canllawiau a nodir yn y penodau blaenorol.

### Cyd-ddeddfwriaeth

6.3 Mae yna adegau pan fo'r rhiant-Ddeddf yn ei gwneud **yn ofynnol** i Weinidogion Cymru wneud offerynnau statudol, neu gymeradwyo a chyhoeddi is-ddeddfwriaeth arall, ar y cyd â gweinyddiaethau eraill yn y DU. Mae hyn yn golygu bod **rhaid i bob un** o'r Gweinidogion perthnasol gymeradwyo'r ddeddfwriaeth a'i llofnodi, fel y bo'n briodol.

### Deddfwriaeth gyfansawdd

6.4 Gall fod adegau hefyd pan fydd Gweinidogion Cymru yn **dewis** arfer eu pwerau mewn modd cyfansawdd gyda Gweinidogion o weinyddiaethau eraill yn y DU. Is-ddeddfwriaeth gyfansawdd yw pan fo un eitem o ddeddfwriaeth yn cael ei chymeradwyo neu ei gwneud gan fwy nag un weinyddiaeth, gyda phob un yn ei gwneud mewn perthynas â'i meysydd cyfrifoldeb a'i phwerau hi ei hun yn unig. Gallai pob un wneud

ei rhan hi o’r ddeddfwriaeth ei hun, ond eu bod wedi **dewis** gweithredu gyda’i gilydd.

6.5 Mewn rhai achosion mae’n bosibl cyfuno’r defnydd o bwerau i Lywodraeth y DU ddeddfu yng Nghymru gyda phwerau i Weinidogion Cymru wneud hynny. Er enghraifft, gallai set o Reoliadau a wneir yn gyfansawdd gynnwys rheoliadau a wneir gan Ysgrifennydd Gwladol sy’n gymwys yn Lloegr a chan un o Weinidogion Cymru yng Nghymru, ynghyd â rhagor o reoliadau perthynol a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy’n gymwys yng Nghymru ac yn Lloegr, gan nad yw’r pwerau penodol hynny wedi’u datganoli i Gymru.

6.6 Gellid ystyried gwneud is-ddeddfwriaeth gyfansawdd am wahanol resymau, megis:

- am ei bod yn gyfleus i’r darllenydd, er enghraifft pan fo’r gofynion ar gyfer y diwydiant perthnasol yr un fath ym mhob maes cyfrifoldeb;
- pan nad oes gan Weinidogion Cymru mo’r pwerau i wneud darpariaeth lawn oherwydd y ffordd y mae’r pwerau wedi’u ddatganoli; neu
- sicrhau cysondeb mewn ymagwedd lle ceir gorgyffwrdd gweithredol sylweddol ar draws y ffin.

6.7 Mae’r enghreifftiau blaenorol yn cynnwys:

- Rheoliadau Clefydau Moch 2014, offeryn sy’n nodi’r gweithdrefnau rheoli sydd i’w defnyddio yng Nghymru, Lloegr a’r Alban yn ystod achosion o glefyd heintus ymhlith moch. Barnwyd bod dyddiadau polisi a dyddiadau gweithredu cyson a gwaith cydlynu gorfodaeth a gâi eu sicrhau drwy offeryn statudol cyfansawdd yn ddymunol i’r tair gweinyddiaeth ac i’r rhai y byddai’r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt ac a fyddai fel arall wedi gorfod ymgynghori o bosibl â sawl darn o ddeddfwriaeth, gan gynnwys yr asiantau cyflawni a gorfodi;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2018, a oedd yn diwygio Rheoliadau o’r flwyddyn 2009. Gan nad oedd rhai meysydd yr oedd angen eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth o fewn pwerau Gweinidogion Cymru, barnwyd y byddai’n fuddiol bwrw ymlaen â deddfwriaeth ar sail gyfansawdd;
- Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 – gan fod yr ymagwedd bolisi o reoli rhywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru a Lloegr wedi’i chysoni, gwelwyd bod offeryn cyfansawdd, a fyddai’n gymwys yr un pryd ledled Cymru a Lloegr, yn helpu gyda dull gorfodi cyson, a hygyrchedd a dealltwriaeth i aelodau’r cyhoedd ac eraill y byddai’r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt.

### Cytundeb y Gweinidogion ar gyfer cyd-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth gyfansawdd

6.8 Yn yr un modd â phob is-ddeddfwriaeth, rhaid gofyn i'r Gweinidog gytuno y caiff y swyddogion baratoi'r is-ddeddfwriaeth, drwy gyflwyno cyngor ysgrifenedig i'r Gweinidog, sef cyngor y mae'n rhaid iddo drafod natur y gyd-ddeddfwriaeth neu'r ddeddfwriaeth gyfansawdd.

6.9 Dylai'r swyddogion polisi fod yn ymwybodol mai safbwynt Llywodraeth Cymru fel rheol yw, pan fo pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru, y dylent gael eu harfer gan Weinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain drwy'r Senedd. Rhaid cael rhesymau cryf dros ddilyn dull amgen, megis offeryn cyfansawdd, yn enwedig wrth wneud hynny ar sail Cymru a Lloegr (hynny yw, heb yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon). Bydd angen i'r swyddogion polisi wneud achos llethol o blaid arddel dull cyfansawdd, ac nid yw'r ffaith y gallai fod yn haws ac yn llai costus o ran adnoddau – ar y cyfan – yn ddigon.[13]

6.10 Wrth ofyn i'r Gweinidog gytuno i ddull gweithredu ar y cyd neu ddull cyfansawdd, mae angen ystyried y pwyntiau hyn wrth baratoi'r cyngor:

- Yn achos cyd-offerynnau statudol: rhaid i'r cyngor i'r Gweinidog esbonio'n glir fod angen arfer y pwerau ar y cyd, gyda Llywodraeth y DU a/neu eraill;

- Yn achos offerynnau statudol cyfansawdd: y Gweinidog fydd yn defnyddio'i bwerau i wneud y ddeddfwriaeth ar sail gyfansawdd, ac felly **rhaid gofyn i'r Gweinidog gytuno i'r dull gweithredu hwn a hynny mewn cyngor ysgrifenedig a gyflwynir i'r Gweinidog**. Dylai'r cyngor nodi achos dros fynd ati fel hyn sy'n amlinellu rhesymau o'r mathau a welir uchod.

### Datblygu cyd-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth gyfansawdd

6.11 Bydd hyn yn galw am gydweithio a chydweithredu agos â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU a/neu'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, gyda chytundeb clir ar rolau a chyfrifoldebau. Nodir y sail weinyddol dros weithio ar y cyd ym Mhennod 2, paragraffau 2.41-2.43 uchod. Dylid deall mai partneriaeth yw'r gwaith cyflawni, a dylid cydnabod y bydd gan bob ochr ei safbwynt polisi a'i blaenoriaethau ei hun, ac na ddylai unrhyw un partner bennu'r cynnwys neu'r amserlen.

---

[13] Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar weithio gyda Llywodraeth y DU o ran cywiro diffygion yn y gyfraith ddomestig sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth yr UE sy'n uniongyrchol gymwys gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn benodol yn wahanol i hyn a dylai swyddogion polisi sy'n gweithio ar y cywiriadau hyn ymgynghori â'r canllawiau penodol ar gyfer y gwaith hwn a chysylltu â Thîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd i gael rhagor o arweiniad.

6.12 Gallai Gweinidogion Cymru gael eu gwahodd i ymuno mewn darn o ddeddfwriaeth ar gyfnod hwyr yn ei ddatblygiad, neu gallai'r prosiect ddechrau fel prosiect ar y cyd (er enghraifft, wrth i'r gweinyddiaethau gydgyhoeddi ymgynghoriad polisi ar newidiadau mewn Cod Ymarfer). Er hynny, gall ymagweddau polisi neu flaenoriaethau gwahanol olygu, yn y pen draw, na fydd modd bwrw ymlaen ag is-ddeddfwriaeth gyfansawdd. Unwaith eto, penderfyniad i Weinidog o bob un o'r gweinyddiaethau ei wneud fydd hwn.

6.13 Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymwneud â drafftio neu wirio drafftiau o offeryn statudol ar y cyd neu ar ffurf gyfansawdd, a bydd angen iddynt ystyried is-ddeddfwriaeth arall o'r fath. Nid yw offerynnau statudol sydd i'w gosod gerbron deddfwrfeydd eraill yn ogystal â'r Senedd yn cael eu gwneud yn ddwyieithog fel arfer, gan nad oes modd gosod y fersiwn Gymraeg gerbron y deddfwrfeydd eraill, na'i chymeradwyo na'i dirymu ganddynt (gweler hefyd baragraff 6.15 ymlaen isod ynghylch gwaith craffu yn y Senedd). Er hynny, mewn rhai amgylchiadau fe all offeryn gynnwys testun Cymraeg, pan fydd yn diwygio deddfwriaeth a wnaed yn flaenorol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol helpu yn y gwaith o baratoi'r testun Cymraeg, ond mae angen trafod hyn a chytuno arno gyda'r Uned ar ddechrau'r prosiect.

6.14 Pan fo angen Memorandwm Esboniadol, dylid defnyddio templed Llywodraeth Cymru. Er y gallai fod yn briodol sicrhau cysondeb rhwng y memoranda a osodir gerbron deddfwrfeydd gwahanol, rhaid i'r cynnwys adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig, er enghraifft nodi mai Gweinidogion Cymru sydd â'r pwerau i wneud yr offeryn. Yn yr un modd, dylai unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol a ddarperir nodi'r costau gan gyfeirio'n benodol at Gymru.

**Gwaith craffu'r Senedd ar gyd-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth gyfansawdd**

6.15 Bydd y Ddeddf alluogi yn nodi pa weithdrefn sy'n gymwys, ac mae'n ofynnol i'r weithdrefn hon gael ei chyflawni gan yr **holl** ddeddfwrfeydd perthnasol. Felly, er enghraifft, rhaid i offeryn cyfansawdd neu offeryn ar y cyd sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol a wneir gan Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth y DU a chan un o Weinidogion Cymru gael ei osod gerbron y Senedd a Senedd y DU, a'i gymeradwyo gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn a chan ddau Dŷ Senedd y DU.

6.16 Gan mai yn uniaith Saesneg y gwneir offeryn statudol ar y cyd neu offeryn statudol cyfansawdd fel arfer, mae Rheol Sefydlog 21.2(ix) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad gyhoeddi adroddiad technegol sy'n nodi nad yw'n ddwyieithog. Dylai'r swyddogion gydlynu ag Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant ynghylch sut i fynd i'r afael â natur

uniaith yr offeryn yn eu Memorandwm Esboniadol ac ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad.

6.17 Pan fo is-ddeddfwriaeth gyfansawdd yn agored i gael ei dirymu neu ei chymeradwyo gan ddeddfwrfeydd, mae penderfyniad un ddeddfwrfa i ddirymu, neu i beidio â chymeradwyo, yn gymwys i'r eitem gyfan o ddeddfwriaeth. Er enghraifft, gallai penderfyniad yn y Senedd ddirymu darpariaethau a wneid gan yr Ysgrifennydd Gwladol hyd yn oed i'r graddau y byddent yn gymwys i Loegr neu gallai penderfyniad gan y naill neu'r llall o ddau Dŷ Senedd y DU ddirymu darpariaeth a wneid gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru yn unig. Dyma un rheswm pam mae rhai wedi mynegi pryder ynglŷn ag is-ddeddfwriaeth gyfansawdd.

**Cynllunio ac amserlennu cyd-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth gyfansawdd**

6.18 Mae hyn yn rhan hanfodol o'r broses. Rhaid cytuno ar amserlen y ddeddfwriaeth gyda'r holl weinyddiaethau dan sylw, a rhaid i'r Gwasanaethau Cyfreithiol ac Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a Llywodraethiant a Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol (a'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol os yw'r is-ddeddfwriaeth ar y cyd neu ar ffurf gyfansawdd yn cynnwys testun Cymraeg, e.e. lle mae angen diwygio offeryn statudol ar gyfer Cymru'n unig) fod yn rhan o waith sefydlu'r amserlen, gan fod cynnwys nifer o weinyddiaethau a deddfwrfeydd yn gallu arwain at gryn gymhlethdod ymarferol. Er enghraifft, dylai offerynnau statudol gael eu gosod ym mhob deddfwrfa berthnasol ar yr un diwrnod er mwyn parchu hawliau pob deddfwrfa, a bydd y dyddiad priodol yn cael ei bennu gan ffactorau megis materion gweinyddol mewnol, gofynion statudol eraill neu weithdrefnau'r deddfwrfeydd. Dylai pob partner fod yn ymwybodol ac yn ystyriol o'r cyfyngiadau y mae eu partneriaid yn gweithredu ynddynt. Dyma rai enghreifftiau:

- Prosesau clirio mewnol;
- Y ffaith ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio dogfen ymgynghori ddwyieithog, a chyhoeddi'r fersiwn Gymraeg a'r Saesneg yr un pryd;
- Argaeledd y Gweinidogion;
- Y ffaith bod deddfwrfeydd ar doriad ar ddyddiadau gwahanol neu wedi'u diddymu;
- Etholiadau lleol neu seneddol sydd ar y gweill ac unrhyw gyfnodau cyn yr etholiad sy'n effeithio ar Lywodraeth Cymru;
- Y ffaith bod dadleuon ar offerynnau'r weithdrefn gadarnhaol yn cael eu cynnal yn ystod amser y Llywodraeth fel rheol (e.e. ar brynhawn dydd Mawrth yn y Senedd yn unig fel arfer).

### Is-ddeddfwriaeth sy'n gyfrifoldeb i gyrff eraill ac sy'n dod o dan weithdrefn yn y Senedd neu y mae'n ofynnol iddi gael ei gosod gerbron y Senedd

6.19 Fel y nodwyd ym Mhennod 3, paragraff 3.7 uchod, mae gan rai cyrff eraill bwerau neu ddyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru. Er enghraifft, mae adran 30 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC") gyhoeddi Cod Ariannol. Rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo drafft o'r Cod ac yna rhaid i CCAUC beidio â chyhoeddi'r Cod tan ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Senedd am 40 niwrnod heb i'r Senedd benderfynu ei ddirymu yn ystod y cyfnod hwnnw.

6.20 Gan fod yr eitemau hyn yn rhan o gyfrifoldeb cyrff eraill, bydd y dull cyfieithu yn cyd-fynd â'u polisïau a'u dyletswyddau nhw eu hunain o dan Safonau'r Gymraeg.

6.21 Ar ben hynny, mae gan rai sefydliadau allanol gyfrifoldebau dros y polisi sy'n arwain at is-ddeddfwriaeth, er mai Gweinidogion Cymru sudd â'r pwerau i wneud neu i ddyroddi'r ddeddfwriaeth o hyd. Er enghraifft, yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru sy'n arwain y broses o ddatblygu'r rheoliadau hylendid bwyd a diogelwch bwyd sy'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru.

6.22 Efallai y bydd y swyddogion polisi yn eu cael eu hunain yn cyfrannu at helpu cyrff o'r fath. Bydd natur y cymorth yn dibynnu ar yr eitem o ddeddfwriaeth, natur y pwerau a'r trefniadau lleol gyda'r cyrff dan sylw. Gallai amrywio o helpu i drefnu bod cyngor i'r Gweinidogion yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidogion, i ddarparu mewnbwn polisi, drafftio offerynnau neu drefnu i argraffu a chyhoeddi offeryn statudol. Gellir gofyn am gyngor gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant a Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol.

6.23 Pan fo'r pŵer i wneud neu gyhoeddi'r ddeddfwriaeth yn nwylo corff arall, caiff Gweinidogion Cymru roi cymorth drwy osod y ddogfen gerbron y Senedd. Dylai'r swyddogion polisi fod yn ymwybodol, os bydd Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar yr is-ddeddfwriaeth, mai'r disgwyliad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn ymateb. Er enghraifft, fe ellid gweld bod rhaid i'r swyddogion polisi esbonio polisïau a dyletswyddau'r sefydliad allanol hwnnw o dan Safonau'r Gymraeg.

### Offerynnau a wneir gan swyddogion Llywodraeth Cymru o dan egwyddor Carltona

6.24 Mewn rhai achosion, mae'r Gweinidogion wedi cytuno y gall eu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth benodol gael eu harfer gan swyddogion ar eu rhan, yn unol â'r hyn a elwir yn "egwyddor Carltona". Mae'r egwyddor yn deillio o'r gyfraith achosion ac mae'n caniatáu i weision sifil Llywodraeth Cymru arfer swyddogaethau ar ran y Prif Weinidog,

Gweinidogion Cymru a’r Cwnsler Cyffredinol. Gall yr egwyddor gael ei defnyddio i alluogi’r swyddogion i wneud offerynnau sy’n cyflawni penderfyniadau gweinyddol safonol, er enghraifft Gorchymyn o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i gau priffyrdd neu i gau priffyrdd dros dro.

6.25 Mewn achosion o’r fath, fe ddylai fod gan y Grŵp Polisi ganllawiau ynghylch y pwerau a all gael eu harfer fel hyn, gan bwy a sut y cânt eu cyhoeddi. Os oes ar y swyddogion polisi angen rhagor o gyngor ynghylch arfer pwerau fel hyn, dylent ofyn am gyngor y Gwasanaethau Cyfreithiol.

**Offerynnau statudol lleol**

6.26 Gellir cyfeirio at offeryn statudol fel un cyffredinol neu leol yn ôl ei ddeunydd. Mae offeryn statudol yn lleol fel arfer os yw ei natur yn bersonol, lleol neu breifat, ac mae’n gyffredinol os yw ei natur yn gyhoeddus ac yn gyffredinol, oni bai bod rhesymau arbennig i’r gwrthwyneb – gweler Rheoliad 4 o Reoliadau Offerynnau Statudol 1947 (OS 1948/1).

6.27 Mae dosbarthiad lleol neu gyffredinol yn pennu a oes rhaid i offeryn statudol gael ei argraffu a’i roi ar werth ai peidio. Nid yw offerynnau statudol lleol yn cael eu hargraffu fel arfer ond maen nhw ar gael ar wefan www.legislation.gov.uk.

6.28 Nid yw dosbarthu’r offeryn statudol fel un lleol neu gyffredinol yn dibynnu ar ddosbarthiad y rhiant-Ddeddf. Mae llawer o offerynnau a wneir o dan ddeddfau cyhoeddus cyffredinol yn cael eu dosbarthu fel offerynnau lleol. Nid yw’r ffaith bod offeryn statudol yn diwygio Deddf neu offeryn statudol sy’n gymwys yn gyffredinol yn golygu y dylai gael ei ddosbarthu fel un cyffredinol. Os yw’r diwygiad yn ymwneud ag ardal leol dylid ei chyfrif yn lleol. Nid yw’r ffaith ychwaith fod offeryn statudol lleol yn debygol o fod o ddiddordeb cyffredinol neu o ddenu cyhoeddusrwydd ehangach yn golygu y dylid ei ddosbarthu fel un cyffredinol.

6.29 Os oes amheuaeth ynglŷn â dosbarthu offeryn fel un lleol neu gyffredinol, yn y lle cyntaf dylai’r swyddogion polisi ymgynghori â chyfreithwyr y Gwasanaethau Cyfreithiol. Mewn rhai achosion, gall fod angen gofyn wedyn am gyngor Swyddfa’r Codau Deddfwriaethol.

**MATERION A ALLAI GODI**

**Materion technegol mewn is-ddeddfwriaeth**

6.30 Mae’n bwysig sicrhau bod gwallau’n cael eu hosgoi mewn is-ddeddfwriaeth: gwiriwch ddrafftiau terfynol yn drylwyr i sicrhau nad oes

camgymeriadau fel gwallau teipograffyddol, anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, neu broblemau fformat neu gynllun.

6.31 Yn achlysurol, serch hynny, fe fydd materion technegol yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth, er enghraifft yn ystod gwaith craffu'r pwyllgorau neu rywbryd ar ôl iddynt gael eu gwneud. Os tynnir sylw swyddogion polisi at fater o'r fath, dylent ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch effaith y mater technegol ar effaith gyfreithiol y ddeddfwriaeth, pa mor gyflym y mae angen ei ddatrys, a'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'r mater, os bydd angen. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol:

- Os yw'r mater technegol mewn offeryn drafft sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol ac sydd wedi'i osod gerbron y Senedd, ond nad yw'r cynnig i'w gymeradwyo wedi'i drafod eto, mae modd ei dynnu'n ôl o dan Reol Sefydlog 27.11 a chyflwyno fersiwn ddiwygiedig i gael ei hystyried. Bydd angen i'r swyddogion polisi ystyried a fydd yr amserlenni'n caniatáu hyn, gan y bydd y cyfnod craffu yn dechrau eto o'r dechrau, ar y diwrnod y gosodir yr offeryn diwygiedig;
- Gall cais gael ei wneud i'r Archifau Gwladol am gyhoeddi slip cywiro;
- Gall rheoliadau diwygio gael eu gwneud yn unswydd i fynd i'r afael â'r mater technegol (sy'n gofyn am broses newydd o ddatblygu a gosod y rheoliadau newydd);
- Gellir mynd i'r afael â'r mater maes o law fel rhan o eitem gysylltiedig o ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth;
- Gall y mater gael sylw maes o law y tro nesaf y caiff y ddeddfwriaeth ei diwygio.

6.32 Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y dewis rhwng yr opsiynau hyn, gan gynnwys arwyddocâd cyfreithiol y mater, pa mor gyflym y mae angen mynd i'r afael ag ef, ei flaenoriaeth o'i gymharu â deddfwriaeth arfaethedig arall, ac a oes cyfrwng deddfwriaethol priodol ar gael i wneud y diwygiadau. Er enghraifft, mae rhai offerynnau statudol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, gan roi cyfle hwylus am ddiwygiadau nad oes brys yn eu cylch, ond efallai na fydd eraill yn cael eu hadolygu am rai blynyddoedd, ac os felly byddai dull arall yn briodol i sicrhau bod y llyfr statudau'n cael ei gywiro.

**Diddymu'r Senedd**

6.33 Mae'r cyd-adweithio rhwng dyddiadau eistedd diwethaf y Senedd cyn cael ei diddymu cyn etholiadau, a'r gwahanol ofynion yn y Rheolau Sefydlog a'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau cadarnhaol a negyddol ar gyfer is-ddeddfwriaeth, yn arwain at nifer o faterion ymarferol y mae'n rhaid i'r swyddogion polisi eu cadw mewn cof wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer deddfwriaeth o gwmpas y cyfnod hwnnw. Mae'r rhain yn cael eu chwyddo os bydd cyfnod o doriad yn union cyn y diddymiad ar gyfer etholiad. Yn benodol, er nad yw'r

cyfnod dirymu yn weithredol yn ystod y diddymiad, dylech nodi y bydd yn ailddechrau ar ôl sefydlu'r Senedd newydd, felly mae'n bosibl i eitem o is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud yn ystod un Senedd, ond ei hystyried ar gyfer ei dirymu yn y Senedd ganlynol. O ran eitemau sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, y rhagdybiaeth arferol yw y dylen nhw gael eu gosod gerbron y Senedd mewn pryd i drefnu penderfyniad yn y Cyfarfod Llawn cyn y diddymiad.

6.34 Y drefn arferol sydd wedi'i dilyn yw bod Gweinidogion Cymru yn dal yn cael gwneud is-ddeddfwriaeth yn ystod y diddymiad, o fewn terfynau'r penderfyniadau a ganiateir yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad fel y'u nodir mewn unrhyw ganllawiau cyn yr etholiad. Serch hynny, fydd dim modd iddi gael ei gosod gerbron y Senedd, nac i'r Senedd graffu arni.

6.35 Mae cynllunio cynnar yn hanfodol, a dylid hefyd ystyried yr effaith gronnol ar y rhanddeiliaid, megis llywodraeth leol, o ran gwneud a dwyn i rym nifer o offerynnau ar unwaith yn sgil cywasgu amserlenni oherwydd etholiad.

6.36 Yn y pen draw, mater o farn wleidyddol ar sail achos unigol fydd penderfynu a ddylai is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud yn y cyfnod cyn yr etholiad neu'n union cyn hynny. Er bod rhaid i fusnes hanfodol gael ei gynnal, mae'n arferol i'r Gweinidogion arfer disgresiwn wrth gychwyn unrhyw gamau newydd o gymeriad parhaus neu hirdymor. Dylai penderfyniadau ar faterion polisi, y gellid disgwyl i lywodraeth newydd ddymuno cael cyfle i arddel safbwynt gwahanol arnynt i'r llywodraeth bresennol, gael eu gohirio tan ar ôl etholiad, ar yr amod na fyddai gohirio felly yn niweidiol i fudd cenedlaethol neu gyhoeddus, neu'n gwastraffu arian cyhoeddus. Felly mewn gwirionedd, dylai eitemau na chânt eu gohirio gael eu cyfyngu i argyfyngau neu fân eitemau technegol nad ydynt yn ddadleuol.

6.37 Bydd Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant a Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol yn cyhoeddi canllawiau penodol ar amserlenni pan fydd dyddiadau'r toriad, y diddymiad a chyfarfodydd cyntaf y Senedd nesaf yn hysbys.

**Dewis gweithdrefn**

6.38 Nid yw rhai rhiant-Ddeddfau yn pennu'r weithdrefn yn y Senedd sy'n gymwys i bŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, gan ddarparu yn hytrach y caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r weithdrefn o'u dewis nhw. Y pŵer mwyaf cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio lle mae dewis ar gael yw hwnnw o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, sydd bellach wedi'i gadw gan adran 1A o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd

(Ymadael) 2018 drwy gydol y cyfnod pontio, sy'n ymwneud â gweithredu rhwymedigaethau'r UE.[14]

6.39 Mater i'r Gweinidog yw dewis gweithdrefn, ac felly rhaid gofyn am gytundeb y Gweinidog drwy gyflwyno cyngor i'r Gweinidog mewn ysgrifen. Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi ynghylch y ffactorau sydd i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth benderfynu a ddylai'r ddeddfwriaeth ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn negyddol yn y Senedd. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn fel sail i'r cyngor a'r argymhelliad ynglŷn â'r weithdrefn i'w defnyddio ym mhob achos.

6.40 Gan fod dewis o weithdrefnau ar gael, dylai cyfiawnhad o'r dewis a wneir ym mhob achos gael ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, mewn adran o'r enw "Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad". Dylai'r swyddogion polisi fod wybod y gall fod gan y Pwyllgor farn wahanol ar baa weithdrefn sy'n briodol a chyhoeddi adroddiad ar ragoriaethau yn unol â hynny.

**Cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n dod o dan weithdrefnau gwahanol**

6.41 Mae hefyd yn werth nodi, o dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, fod modd cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n dod o dan weithdrefnau gwahanol yn y Senedd mewn un offeryn statudol sy'n dod o dan y llymaf o'r gweithdrefnau hynny yn unig. Er enghraifft, os yw offeryn yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n denu'r weithdrefn gadarnhaol ac eraill a fyddai'n denu'r weithdrefn negyddol, mae'r offeryn cyfan yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol yn unig.

6.42 Mae adran 40 hefyd yn gymwys pan fo offeryn yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n dod o dan weithdrefn yn y Senedd ac eraill na fydden nhw'n dod o dan unrhyw weithdrefn. Er enghraifft, os yw offeryn yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n denu'r weithdrefn negyddol ac eraill na fydden nhw'n dod o dan yr un o weithdrefnau'r Senedd, mae'r offeryn cyfan yn dod o dan y weithdrefn negyddol.

6.43 Mae adran 40 yn gymwys i unrhyw offeryn statudol a wneir gan Weinidogion Cymru, sy'n cynnwys unrhyw fath o is-ddeddfwriaeth, ni waeth sut na pha bryd y cafodd y pŵer neu'r ddyletswydd i wneud yr offeryn eu creu. Mae'n gymwys i bwerau a dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth ddatganoledig a deddfwriaeth y DU, ac o dan ddeddfwriaeth a basiwyd cyn ac ar ôl Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, er bod hyn yn dibynnu ar gyfyngiadau a all gael eu hesbonio

[14] Mae gan y Gweinidogion ddewis hefyd o ran y weithdrefn i'w defnyddio wrth wneud rhai offerynnau statudol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er bod y penderfyniad hwn yn dibynnu ar gyfyngiadau penodol ac, o dan rai amgylchiadau, ar argymhelliad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad; mae canllawiau ar wahân ar gael ar hyn gan Dîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.

ymhellach gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a/neu Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol.

6.44 Gall adran 40 gael ei defnyddio ynghyd ag adran 39, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth mewn gwahanol ffurfiau (e.e. drwy ddefnyddio pŵer i wneud gorchmynion er mwyn gwneud set o reoliadau). Er enghraifft, os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud gorchymyn sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, a phŵer i wneud rheoliadau sy'n dod o dan y weithdrefn negyddol, mae adrannau 39 a 40 yn eu galluogi i gyfuno'r pwerau mewn un offeryn statudol (a all fod yn orchymyn neu'n rheoliadau) a fydd yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

**Ffioedd am wasanaethau – cydsyniad Trysorlys EM**

6.45 Gall yr is-ddeddfwriaeth ddefnyddio pŵer mewn deddfwriaeth i bennu ffi am wasanaeth y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu. Gall fod angen cymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi er mwyn arfer y pŵer i godi ffi, gan ddibynnu ar sut mae'r pŵer wedi'i roi i Weinidogion Cymru. Bydd angen ystyried cydnawsedd â Chyfarwyddeb Gwasanaethau'r UE (gweler isod) hefyd. Gall y cyfreithwyr roi cyngor ar bŵer o'r fath.

**Cyfarwyddeb Safonau Technegol yr UE a Chytundeb Rhwystrau Technegol i Fasnach Sefydliad Masnach y Byd**

6.46 Mae'r Gyfarwyddeb Safonau Technegol yn helpu i ategu marchnad sengl yr UE drwy osod gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd yr Aelod-wladwriaethau'n dymuno gweithredu "rheoliadau technegol" a fyddai'n effeithio ar fasnach o fewn yr UE. Mae yna ofyniad cyffredinol i hysbysu'r Comisiwn am reoliadau o'r fath, i sicrhau eu bod yn gydnaws â rheolau Cytuniad yr UE ar symud nwyddau'n rhydd cyn iddynt gael effaith. Rhaid i aelodau o Sefydliad Masnach y Byd (WTO) gydymffurfio â'r Cytundeb ar Rwystrau Technegol i Fasnach, sy'n ceisio sicrhau nad yw rheoliadau, safonau, gweithdrefnau profi ac ardystio yn creu rhwystrau diangen i fasnach.

6.47 Os yw'r Gyfarwyddeb yn gymwys, bydd rhaid i'r swyddogion polisi ganiatáu o leiaf dri mis yn ychwanegol cyn bod modd dod â hi i rym. Os yw'r Gyfarwyddeb yn gymwys ac os na ddilynir y weithdrefn briodol, ni fydd modd gorfodi'r ddeddfwriaeth. Os yw Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd yn gymwys, bydd rhaid ichi ganiatáu o leiaf chwe mis yn ychwanegol cyn y gallwch ddod ag ef i rym. Os yw'r ddau yn gymwys, mae'r ddau gyfnod yn rhedeg yn gyfochrog (h.y. does dim rhaid ichi aros 3 mis o dan reolau'r UE a 6 mis arall o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd).

6.48 Gan hynny, mae'n hanfodol gwirio a yw naill ai'r Gyfarwyddeb Safonau Technegol neu Gytundeb Rhwystrau Technegol i Fasnach Sefydliad

Masnach y Byd yn gymwys, ac os ydych yn ansicr, gofynnwch am gyngor y Gwasanaethau Cyfreithiol.

**Cyfarwyddeb Gwasanaethau'r UE**

6.49 Nod Cyfarwyddeb Gwasanaethau'r UE yw chwalu rhwystrau sy'n atal masnach drawsffiniol mewn gwasanaethau rhwng yr Aelod-wladwriaethau, a'i gwneud yn haws i ddarparwyr gwasanaethau sefydlu busnesau a chynnig eu gwasanaethau mewn rhannau eraill o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

6.50 Bydd angen i unrhyw ofynion sy'n effeithio ar fynediad i "weithgaredd gwasanaeth" (gan gynnwys e.e. amodau mewn trwydded a ffioedd) gael eu cyfiawnhau fel rhai nad ydynt yn camwahaniaethu, sy'n angenrheidiol ac sy'n gymesur neu gall y gofynion hyn fod yn groes i'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau neu reolau Cytuniad yr UE ar ryddid sefydlu a symud gwasanaethau yn rhydd.

6.51 Gall fod angen rhoi gwybod am unrhyw gynnig i gyflwyno gofyniad o'r fath i Adran Busnes, Menter a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU. Os ydyn nhw'n ansicr, dylai swyddogion polisi ymgynghori â'u rheolwr llinell neu ofyn am gyngor cyfreithiwr.

**Gweithredu deddfwriaeth yr UE – Nodiadau trosi**

6.52 Un o'r meysydd a nodir yn Rheol Sefydlog 21.3 y caiff y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ei ystyried mewn adroddiad ar ragoriaethau yw a yw'r ddeddfwriaeth a ystyrir yn rhoi cyfraith yr UE ar waith mewn modd amhriodol.

6.53 Un dull y mae'r Pwyllgor wedi'i nodi a fyddai'n helpu i ystyried hyn yw nodyn trosi, sef dogfen sy'n dangos sut mae pob un o brif elfennau Cyfarwyddeb yr UE, y mae'r ddeddfwriaeth dan sylw yn ei throsi, wedi cael neu yn mynd i gael ei throsi i gyfraith y DU.

6.54 Nid yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud **yn ofynnol** i nodiadau trosi gael eu llunio. Ond, mae wedi ymrwymo i ddarparu copïau o nodiadau trosi pan fydd y rheiny ar gael; naill ai lle mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi creu nodyn fel rhan o'u gwaith, neu, yn achos cyd-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth gyfansawdd, lle maen nhw wedi cael nodyn gan y weinyddiaeth sy'n arwain.

6.55 Pan fo nodyn trosi ar gael, gofalwch fod gan Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant gopi y gall ei rannu gyda'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad pan gaiff y ddeddfwriaeth ei gosod.

## ATODIAD 1 – RHESTR BYRFODDAU

| | |
|---|---|
| CAPL | [Tîm] Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaeth Seneddol |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg uwch Cymru |
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| OPC | Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol |
| OS | Offeryn statudol |
| RIA | Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
| RPI | Y Mynegai Prisiau Manwerthu |
| Senedd | Senedd Cymru neu the Welsh Parliament |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |

# ATODIAD 2 – OFFERYNNAU STATUDOL SY’N DIWYGIO DEDDFWRIAETH SYLFAENOL – CANLLAWIAU I GYFREITHWYR A SWYDDOGION POLISI

## Cefndir

1. Ers i Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol gael ei sefydlu yn 2007, mae offerynnau statudol Llywodraeth Cymru sy’n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn gorfod cael eu cymeradwyo gan y Swyddfa honno yn hytrach na Swyddfa’r Cwnsleriaid Seneddol yn Llundain. Bwriad y nodyn hwn yw helpu cyfreithwyr i ddrafftio offerynnau statudol drwy nodi rôl Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn y broses gymeradwyo a’r trefniadau ymarferol ar gyfer sicrhau cymeradwyaeth.

2. Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at ddeddfwriaeth sylfaenol Cymru yn cynnwys Deddfau Senedd Cymru (gan gynnwys Deddfau a gafodd y Cydsyniad Brenhinol cyn iddi gael ei hailenwi) a Mesurau’r Cynulliad. Mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol Cymru a Deddfau Senedd y DU.

## Pa offerynnau statudol sy’n gorfod cael cymeradwyaeth Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol?

*Egwyddorion*

3. Rôl Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yw hybu eglurder, cysondeb a hygyrchedd deddfwriaeth sylfaenol—
    a. sy’n cael ei gwneud neu ei diwygio gan ddeddfwriaeth sylfaenol Cymru, a
    b. sy’n cael ei diwygio neu ei haddasu gan is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru.

4. Mae angen i is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru sy’n diwygio deddfwriaeth sylfaenol gael ei chymeradwyo gan Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol.

5. Mae rôl Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol mewn perthynas ag offerynnau statudol wedi’i disgrifio fel “fetio” neu “glirio”. Mae’r rhain yn golygu’r un peth, sef, fel mater o weithdrefn fewnol Llywodraeth Cymru, nad oes modd i’r offeryn statudol gael ei wneud heb gymeradwyaeth y Swyddfa (o leiaf heb i’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog perthnasol fod yn ymwybodol nad yw’r Swyddfa wedi cymeradwyo’r gwaith drafftio).

*Diwygiadau testunol*

6. Rhaid i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol gymeradwyo pob offeryn statudol sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, pa mor ddibwys bynnag y bo'r diwygiad; yr unig eithriad i hyn yw offerynnau statudol sy'n gwneud newidiadau i ffigur sy'n gysylltiedig â'r RPI.

*Diwygiadau annhestunol*

7. Mae angen hefyd i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol gymeradwyo offerynnau statudol sy'n gwneud addasiadau annhestunol arwyddocaol mewn deddfwriaeth sylfaenol

8. At y dibenion hyn, ystyr "addasiad" yw—
    a. newid yn effaith deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas ag achos y mae eisoes yn honni ei bod yn gymwys iddo (ac fe allai addasiad fod yn peri i'r ddarpariaeth beidio â chael effaith), neu
    b. cymhwyso darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol at achos newydd, gydag addasiadau pellach neu hebddynt.

9. Mae addasiad yn "annhestunol" os yw'n addasu deddfiad mewn modd na fwriedir iddo arwain at newid yn nhestun y deddfiad a addasir pan gyhoeddir y deddfiad nesaf yn ei ffurf ddiweddaraf.

*Enghreifftiau o addasiadau annhestunol mewn offerynnau statudol*

*1 Nid yw adran 10 o Ddeddf Anifeiliaid 2040 (trwyddedau cathod) yn gymwys i lewod a theigrod ar ôl 31 Rhagfyr 2030.*

*1 (1) Mae adran 10 o Ddeddf Anifeiliaid 2040 i fod yn gymwys i gŵn.*

*(2) O'i gymhwyso at gŵn, mae adran 10 i'w darllen* ***fel pe bai****—*

*(a) y cyfeiriadau at gath yn gyfeiriadau at gi, a*

*(b) isadrannau (2) a (5) wedi eu hepgor.*

*1 (1) Mae adran 10 o Ddeddf Anifeiliaid 2040 i fod yn gymwys i gŵn.*

*(2) O'i gymhwyso at gŵn, mae adran 10 i'w darllen* ***fel pe bai****—*

*(a) "ci" wedi ei roi yn lle "cath", ym mhob man lle mae'n ymddangos, a*

*(b) yr is-adran a ganlyn wedi ei mewnosod ar ôl is-adran (5)—*

*"(6) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at "ci" yn cynnwys blaidd."*

10. Mae'n amlwg bod lle i bwyso a mesur beth yw addasiad annhestunol "arwyddocaol", felly anogir y swyddogion i ofyn i dîm Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a oes angen cliriad gan y Swyddfa honno.

11. Wrth ystyried a yw addasiad annhestunol yn arwyddocaol, byddai Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn ystyried y ffactorau canlynol—
    a. parhauster yr addasiad;
    b. a fyddai'r addasiad yn gymwys i bob achos y mae'r ddarpariaeth sydd i'w haddasu yn gymwys iddo ar hyn o bryd;
    c. a fyddai'r addasiad yn gymwys i un neu fwy o achosion y mae'r ddarpariaeth sydd i'w haddasu yn gymwys iddynt ar hyn o bryd ond nid pob achos, arwyddocâd yr achos neu'r achosion ac i ba raddau y mae angen addasu'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol er mwyn ymdrin â'r achos neu'r achosion newydd;
    d. os yw'r addasiad yn golygu cymhwyso darpariaeth statudol at achos newydd, arwyddocâd yr achos newydd ac i ba raddau y mae angen addasu'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol er mwyn ymdrin â'r achos newydd.

*Yr hyn y mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn ei wneud wrth roi cymeradwyaeth*

*Trosolwg*

12. Yn y broses gymeradwyo bydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn mynd ati—
    - i wirio bod y geiriau sy'n rhoi ei effaith i'r diwygiad neu'r addasiad yn gweithio mewn termau technegol, ac
    - i wirio bod y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cael ei diwygio neu ei haddasu—
        - yn glir o ran ei heffaith,
        - yn hygyrch i'r defnyddwyr, a
        - yn gyson, cyn belled ag y bo modd, â deddfwriaeth sylfaenol arall.

13. Ar y cyfan, nid yw'r broses yn golygu ystyried y polisi na rhannau eraill o'r offeryn statudol.

*Y geiriau diwygio*

14. Mae angen i'r geiriau diwygio egluro pa newidiadau sy'n cael eu gwneud yn y ddeddfwriaeth sylfaenol. Gan hynny, bydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn cynnig sylwadau, er enghraifft—
    - os nad yw'n glir a fwriedir i rywbeth weithredu'n destunol ynteu'n annhestunol;
    - os nad yw diwygiad cyffredinol yn fuddiol yn gyffredinol neu'n aneglur yn y modd y mae'n cael ei gymhwyso at unrhyw le penodol.

15. Bydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol hefyd yn sicrhau bod darpariaethau a fewnosodir yn cael eu mewnosod yn y lle gorau, neu mai'r geiriau neu'r darpariaethau cywir sy'n cael eu disodli neu eu diddymu.

16. Mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn ymwneud yn bennaf â gofalu bod y geiriau diwygio yn sicrhau'r canlyniad cywir mewn modd clir. Ni fydd y Swyddfa'n cynnig sylwadau ar faterion sy'n ymwneud ag arddull drafftio o ran y geiriau diwygio, oni bai bod y testun gryn dipyn yn wahanol i'r argymhellion yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar ddrafftio deddfau.[15]

*Deddfwriaeth sylfaenol fel y'i diwygir*

17. Rôl Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yw sicrhau bod unrhyw ddarpariaethau neu eiriau a fewnosodir neu a amnewidir, a'r holl ddeddfwriaeth sylfaenol fel y'i diwygir, yn glir yn eu heffaith.

18. O ran eglurder a chysondeb bydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol hefyd yn ystyried a yw'r testun fel y'i diwygiwyd yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ddrafftio deddfau.

19. Gallai'r drafftwyr yn Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol awgrymu newidiadau sy'n welliannau yn eu barn nhw, hyd yn oed os nad ydynt yn gwbl angenrheidiol. Ond ni fydd y Swyddfa'n gofyn am newid heb reswm da, er enghraifft dim ond am y byddai'r Swyddfa wedi drafftio'r darpariaethau'n wahanol.

20. Fe fydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn crybwyll gwallau teipograffyddol yn y testun sydd i'w mewnosod mewn deddfwriaeth sylfaenol.

21. Nid gwaith Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yw gwirio nad oes dim byd ar goll. Felly, er enghraifft, nid yw'r Swyddfa'n chwilio am ddarpariaethau y gallai fod angen eu diwygio o ganlyniad i ddiwygiad neu addasiad. Ond, os bydd drafftwyr yn y Swyddfa'n sylwi bod rhywbeth ar goll, fe fyddan nhw wrth gwrs yn dweud hynny.

*Rhychwant, cymhwyso a dod i rym etc.*

22. Mae sicrhau bod diwygiad yn glir o ran ei effaith yn cynnwys edrych ar ddarpariaethau'r offeryn statudol sy'n llywodraethu ei effaith, ac yn benodol y rhychwant a'r cymhwyso. Gan hynny, fe allai Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, er enghraifft, gwestiynu darpariaethau sy'n honni eu bod yn cymhwyso diwygiadau "o ran Cymru".

[15] *Drafftio Deddfau i Gymru: canllaw* (Hydref 2019)

23. Er hynny, ni fydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol fel arfer yn cynnig sylwadau ar ddarpariaethau ynghylch dod i rym (yn union fel nad yw'r Swyddfa'n edrych ar orchmynion cychwyn ar gyfer Deddfau Cymru). Ond mae drafftwyr y Swyddfa yn ddigon bodlon rhoi cyngor ar ddarpariaethau o'r fath, yn yr un modd ag ar gyfer cychwyn deddfwriaeth sylfaenol.

*Polisi*

24. Nid yw rôl Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn cynnwys gwirio bod y diwygiadau'n rhoi'r polisi ar waith.

25. Mae'n glir bod hyn yn gofyn am rywfaint o hyblygrwydd yn ymarferol. Os yw diwygiad yn creu effaith ryfedd neu'n peri syndod, neu os nad yw'n ymddangos fel pe bai'n gweithredu'r polisi sy'n hysbys i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, bydd y Swyddfa'n crybwyll hynny (ac mae'n bosibl bod yr effaith ryfedd yn deillio o ddiffyg eglurder). Yn yr un modd, os oes rhywbeth ar ei wyneb yn amwys neu'n aneglur, bydd angen i'r Swyddfa ddweud hynny (a'r disgwyliad wedyn yw y bydd yr adran yn diwygio'r drafft er mwyn rhoi ei effaith i'r polisi yn gliriach).

*Pwerau cyfreithiol i wneud darpariaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol*

26. Nid yw Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn gyfrifol am arddel barn gyfreithiol derfynol ynghylch a yw'r pŵer cyfreithiol i wneud darpariaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn bod ai peidio. Yn bennaf, cyfrifoldeb y cyfreithiwr yn y Gwasanaethau Cyfreithiol sy'n rhoi'r cyfarwyddiadau yw rhoi cyngor ar bwerau. Bydd y Swyddfa'n ddigon bodlon rhoi barn ynghylch pwerau cyfreithiol os gofynnir iddi ac os oes gan y Swyddfa amheuaeth a oes pŵer i wneud y ddarpariaeth ai peidio fe fydd yn codi hynny heb ichi ofyn.

*Darpariaeth drosiannol*

27. Mae'r rhan hon o'r canllawiau yn ymwneud â darpariaeth drosiannol ynghylch dod â diwygiadau testunol i ddeddfwriaeth sylfaenol a wneir gan offeryn statudol i rym; a hefyd â "rheoliadau trosiannol", sef rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch dod â Deddf i rym.

28. Pan fo darpariaeth drosiannol yn addasu effaith deddfwriaeth sylfaenol neu ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol am gyfnod interim, dylid ymdrin â hi fel unrhyw addasiad annhestunol arall. Gan hynny, dim ond os yw'r effaith yn arwyddocaol y bydd yn fater i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol.

29. Pan nad yw darpariaeth drosiannol yn effeithio'n uniongyrchol ar weithrediad deddfwriaeth sylfaenol neu ddiwygiadau iddi, yna nid mater i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yw hyn. Un enghraifft yma

fyddai trefniadau i un corff sefyll yn esgidiau corff arall at ddibenion achos cyfreithiol yn sgil trosglwyddo swyddogaethau

*Testun Cymraeg*

30. Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol sy'n gyfrifol am destun Cymraeg deddfwriaeth sylfaenol yn ogystal â'r testun Saesneg. Cofiwch y bydd angen hefyd i'r Swyddfa glirio testun Cymraeg diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol Cymru.

*Offerynnau statudol a wneir ar y cyd neu ynghyd â Gweinidogion y Deyrnas Unedig*

31. Fel arfer, bydd offerynnau statudol sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac a wneir ar y cyd gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y Deyrnas Unedig (drwy ddewis ynteu am resymau pwerau cyfreithiol) yn cael eu clirio gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol (OPC) yn Whitehall (gweler canllawiau'r OPC i'r adrannau). Does dim angen i'r math hwn o offeryn gael ei glirio gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol oni bai ei fod yn diwygio darpariaeth yn neddfwriaeth sylfaenol Cymru.

32. Fel arfer, mae deddfwriaeth sylfaenol Cymru'n cael ei deddfu yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd angen i unrhyw ddiwygiadau iddi ddiwygio'r ddwy fersiwn o'r testun, o gofio bod i'r ddau destun statws cyfreithiol cyfartal.

*Pethau nad yw Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn eu gwneud*

33. Nid rôl Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yw ystyried darpariaethau offeryn statudol i'r graddau nad yw'r rhain yn effeithio ar ddiwygiadau neu addasiadau annhestunol i ddeddfwriaeth sylfaenol.

34. Gan hynny, ni fydd Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol fel arfer yn ystyried y canlynol nac yn cynnig sylwadau arnynt—
    - y rhaglith;
    - y troednodiadau;
    - y memorandwm esboniadol;
    - darpariaeth sy'n sefyll ohoni ei hun, oni bai ei bod yn llywodraethu diwygiadau testunol neu annhestunol i ddeddfwriaeth sylfaenol yn uniongyrchol (gweler uchod);
    - diwygiadau testunol i is-ddeddfwriaeth;
    - enwi;
    - strwythur neu drefn y darpariaethau yn yr offeryn statudol (felly nid, er enghraifft, ym mha drefn y caiff diwygiadau eu gwneud neu sut y cânt eu strwythuro mewn paragraffau);
    - cynllun a phenawdau.

*Drafftio offerynnau statudol*

35. Mewn rhai achosion, mae'n ddigon posibl y bydd amser yn cael ei arbed os caiff y diwygiadau testunol eu drafftio gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar gyfarwyddiadau, yn enwedig os yw'r diwygiadau'n hir a chymhleth.

36. Nid yw'r adnoddau'n caniatáu i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wneud hyn drwy'r amser, ond dylai cyfreithwyr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddfa barhau i fod yn rhydd i awgrymu hyn fel ffordd arall o weithio o dan amgylchiadau priodol. Wrth wneud hynny, dylai'r Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddfa anelu at leihau dyblygu ymdrechion cyn belled ag y bo modd.

*Gweithdrefnau a chysylltiadau*

37. Dylid anfon ceisiadau am gymeradwyaeth neu gyfarwyddiadau i wneud gwaith drafftio i flwch post Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol: LegislativeCounsel@gov.wales. Gall galwad ffôn i dîm offerynnau statudol y Swyddfa fod yn fuddiol hefyd, yn enwedig mewn achosion brys.

38. Dylai pob arweinydd tîm yn y Gwasanaethau Cyfreithiol roi gwybod i dîm offerynnau Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol am offerynnau statudol sydd ar y gweill ac y bydd angen eu clirio, a hynny ymhell cyn y ffenestr a ragwelir i'r Swyddfa eu clirio neu eu drafftio.

39. Mae angen i'r amserlen ar gyfer offeryn statudol ganiatáu **o leiaf** bedair wythnos i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ei gymeradwyo, oni bai bod argyfwng gwirioneddol. Gall fod angen cymaint â hyn o amser ar gyfer hyd yn oed offeryn byr iawn neu offeryn syml, gan fod angen i'r cyfreithiwr sy'n rhoi'r cyfarwyddiadau a'r swyddogion polisi ystyried y gwaith drafftio ac ymwneud ag ymholiadau a godwyd gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ac ystyried drafftiau pellach. Gall fod angen mwy na phedair wythnos ar gyfer offeryn hir neu gymhleth.

40. Dylai amser ychwanegol gael ei ganiatáu i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol glirio'r gwaith pan fo'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cael ei diwygio wedi'i deddfu yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai bod y cais cychwynnol am gliriad yn cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg. Os yw'r cais am ganiatâd yn cynnwys y testun Saesneg yn unig, bydd angen i Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol glirio'r testun Cymraeg ar ôl iddo gael ei lunio er mwyn sicrhau bod y ddwy fersiwn iaith yn cyfateb i'w gilydd. Rhaid i dimau'r Gwasanaethau Cyfreithiol ganiatáu **o leiaf** wythnos ar gyfer gwiriad cyfwerthedd unwaith y bydd y testun Cymraeg ar gael.

41. Dylai’r amserlen gael ei chytuno cyn gynted â phosibl rhwng tîm y Gwasanaethau Cyfreithiol a thîm offerynnau statudol Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol.